Department for Environment Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad ar labelu bwyd tecach

Dyddiad: 12 Mawrth 2024

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Northern Ireland Executive

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym ni'n gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota byd-enwog.

Gweithiwn yn agos â'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud yr aer yn burach, dŵr yn lanach, tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag y'i cawsom ynddo.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2024

Trwyddedir y wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0. I weld y drwydded ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn welfare.label@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

# Cynnwys

Trosolwg ....................................................................................................................4

Rhagarweiniad ...........................................................................................................9

Labelu Gwlad Tarddiad .........................................................................................10

Labelu dull cynhyrchu ...........................................................................................11

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn ...............................................................................14

Sgôp daearyddol yr ymgynghoriad hwn ................................................................15

Geirfa ......................................................................................................................15

Rhan A: Labelu Gwlad Tarddiad ..............................................................................16

Sgôp yr ymgynghoriad ...........................................................................................16

Cwestiynau'r ymgynghoriad ..................................................................................16

Rhan B: Labelu dull cynhyrchu ................................................................................20

Crynodeb o'r cynigion labelu .................................................................................20

Dull labelu ..............................................................................................................20

Sgôp y labelu .........................................................................................................22

Diffinio safonau cynhyrchu ....................................................................................29

Fformat a therminoleg labeli ..................................................................................35

Monitro a gorfodi ....................................................................................................40

Effeithiau ar fusnesau ............................................................................................43

Busnesau bach a chanolig ....................................................................................45

Asesiad effaith .......................................................................................................45

Diwygiadau labelu ehangach .................................................................................50

Atodiad A - Geirfa ....................................................................................................51

Atodiad B – Safonau cynhyrchu drafft ......................................................................54

# Trosolwg

Rydym ni'n holi eich barn am gynigion Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i labelu bwyd yn gliriach drwy wella labelu dulliau cynhyrchu a gwledydd tarddiad yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o waith ehangach y llywodraeth i wneud labelu bwyd yn fwy esboniadol, cyson a hygyrch. Byddwn yn sicrhau bod y cynigion hyn yn cyplysu i waith sydd eisoes ar y gweill i gael dull mwy safonol o eco-labelu drwy'r Bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd. Gwyddom y gallai fod meysydd eraill lle y gallai labelu gynnig tryloywder ychwanegol, er enghraifft drwy dynnu sylw at fwydydd a gynhyrchwyd yn defnyddio plaleiddiaid sydd wedi eu gwahardd yn y DU. Rydym wedi cynnwys cwestiwn ar ddiwedd yr ymgynghoriad yn holi eich barn am feysydd labelu eraill y gallai'r llywodraeth eu hystyried yn y dyfodol.

## Sut i ymateb

Dylech ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy hyb ymgynghori Gofod y Dinesydd.

Os na allwch ddefnyddio Gofod y Dinesydd, gallwch lawrlwytho dogfennau'r ymgynghoriad ac anfon eich ymateb drwy e-bost at welfare.label@defra.gov.uk neu drwy'r post at:

Animal Welfare Market Interventions and Labelling Team, Department for Environment, Food and Rural Affairs, Seacole Building 2nd Floor, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF.

Deallwn y bydd rhai ymatebwyr efallai'n dewis defnyddio rhywfaint o destun safonedig i oleuo eu hymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodau neu gefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad y gall yr ymatebwyr ei ddefnyddio. Fel arfer mae ymatebion ymgyrch yn debyg iawn neu'n unfath yn union. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gallai ymatebion ymgyrch gael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion eraill i sicrhau y gellir crynhoi hyd a lled y safbwyntiau'n effeithiol ac effeithlon. Bydd pob ymateb ymgyrch yn cael ei ystyried wrth ddadansoddi safbwyntiau cyhoeddus yn derfynol ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimlad ar fater penodol. Y dull a ffafrir o gyflwyno barn (gan gynnwys os yw'r ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw drwy hyb ymgynghori Gofod y Dinesydd.

## Parhad

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg am 8 wythnos. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 12 Mawrth 2024 a daw i ben ar 7 Mai 2024. Ni fydd unrhyw ymateb a dderbyniwn ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ddadansoddi.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei rhannu â swyddogion polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth. Bydd atodiad i'r crynodeb yn cynnwys rhestr o'r holl sefydliadau wnaeth ymateb ond nid enwau, cyfeiriadau na manylion cyswllt personol pobl.

Gallai Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel ei fod ar gael i'r cyhoedd ond heb eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost).

Os dewiswch 'Ie' wrth ateb y cwestiwn isod yn gofyn a fyddech yn hoffi i unrhyw beth yn eich ymateb aros yn gyfrinachol, byddwn yn gofyn i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol gan egluro eich rhesymau dros ei chadw'n gyfrinachol. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn fod yn destun ei rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith ar gael mynediad at wybodaeth (yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004) (EIR), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Gwybodaeth 2018 (DPA)). Mae gennym ddyletswydd, yn bennaf o dan yr EIR, FOIA a'r DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, bydd egluro eich rhesymau dros fod eisiau cadw'r wybodaeth, yn llwyr neu'n rhannol, yn gyfrinachol yn ein helpu i gydbwyso ein dyletswydd i ddatgelu yn erbyn unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd. Os derbyniwn gais am y wybodaeth a roesoch yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yn llawn eich rhesymau dros ofyn am gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol bob tro.

Os dewiswch 'Na' wrth ateb y cwestiwn yn gofyn a hoffech gadw unrhyw beth yn eich ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd ond heb gynnwys eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat.

Weithiau bydd Defra'n rhannu'r wybodaeth a roesoch yn eich ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol. Bydd hyn ond yn digwydd er mwyn gallu dadansoddi'r ymateb i'r ymgynghoriad a chreu adroddiad ar grynodeb o'r ymatebion.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet, ar gael yma tudalen egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i lanlwytho fel dogfen i gyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw sylw neu gŵyn am y broses ymgynghori ei hun, dylech e-bostio consultation.coordinator@defra.gov.uk.

## Amdanoch chi neu eich sefydliad

**Cwestiwn 1 a) Ydych chi eisiau i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol (rhaid ateb)?**

**Dewiswch: [Ydw – Nac ydw]**

**Cwestiwn 1 b) Os ydych, rhowch eich rheswm os gwelwch yn dda.**

**[testun rhydd]**

**Cwestiwn 2. Beth yw eich enw?**

[testun rhydd]

**Cwestiwn 3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?**

[testun rhydd]

**Cwestiwn 4. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau? (dewiswch un opsiwn)**

- ❑ Unigolyn – rydych yn ymateb gyda barn bersonol, yn hytrach na fel cynrychiolydd swyddogol ar ran busnes neu gymdeithas fusnes neu sefydliad arall.
- ❑ Corff cyhoeddus – rydych yn ymateb mewn capasiti swyddogol fel cynrychiolydd ar ran sefydliad llywodraeth leol neu ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus neu gorff cyhoeddus arall yn y DU neu rywle arall.
- ❑ Diwydiant (busnes unigol) – rydych yn ymateb mewn capasiti swyddogol gan gynrychioli barn un busnes unigol.
- ❑ Diwydiant (nifer o fusnesau) – rydych yn ymateb mewn capasiti swyddogol gan gynrychioli barn nifer o fusnesau neu farn cymdeithas fasnach neu gymdeithas fusnes.
- ❑ Sefydliad anllywodraethol – rydych yn ymateb mewn capasiti swyddogol fel cynrychiolydd sefydliad anllywodraethol neu gorff di-wneud-elw neu sefydliad arall.
- ❑ Academia – rydych yn ymateb mewn capasiti arbenigol fel aelod o gyfadran neu ymchwilydd mewn sefydliad academaidd.
- ❑ Arall: dywedwch ba un.

**Cwestiwn 5. Os ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, ble'r ydych yn byw yn y DU? (dewiswch un opsiwn)**

Dewiswch: Cymru – Lloegr – Yr Alban – Gogledd Iwerddon – Tu Allan i'r DU (dywedwch ble)

**Cwestiwn 6. Os ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, pa rai o'r opsiynau isod sy'n eich disgrifio orau?**

Dewiswch: Ffermwr – rhan o'r diwydiant bwyd – milfeddyg – aelod o'r cyhoedd gyda diddordeb – rhywun arall

**Cwestiwn 7. Os ydych yn ymateb fel 'diwydiant (nifer o fusnesau)' yng Nghwestiwn 4, faint o fusnesau ydych chi'n eu cynrychioli? (dewiswch un opsiwn)**

Rhwng 0 a 9 / Rhwng 10 a 49 / Rhwng 50 a 499 / 500 neu fwy / Gwell gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 8. Os yn ymateb fel 'diwydiant (nifer o fusnesau)' yng Nghwestiwn 4, rhowch grynodeb o bwy ydych chi wedi ymgynghori â nhw i lunio eich ymateb.**

[testun rhydd]

Os yn ymateb fel 'diwydiant' neu 'sefydliad anllywodraethol' yng Nghwestiwn 4, dylech ateb cwestiynau 9-15.

**Cwestiwn 9. Os nad ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, rhowch enw eich busnes / sefydliad os gwelwch yn dda.**

[testun rhydd]

**Cwestiwn 10. Os nad ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, o ble y mae eich busnes neu sefydliad yn gweithredu?** Dewiswch bob un perthnasol.

Dewiswch: Cymru – Lloegr – Yr Alban – Gogledd Iwerddon – Yr Undeb Ewropeaidd (nodwch y gwledydd y gweithredwch ynddynt) – Gweddill y Byd (nodwch y gwledydd y gweithredwch ynddynt)

**Cwestiwn 11. Os nad ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, ble y mae pencadlys eich sefydliad?**

Dewiswch: Cymru – Lloegr – Yr Alban – Gogledd Iwerddon – Tu Allan i'r DU (dywedwch ble)

**Cwestiwn 12. Os nad ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, ydy eich sefydliad yn un o'r canlynol? (dewiswch un opsiwn)**

Dewiswch: Micro-fusnes: 1-9 o weithwyr – busnes bach neu ganolig: 10-249 o weithwyr – busnes mawr: 250 neu fwy o weithwyr

**Cwestiwn 13. Os nad ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, ydy eich busnes yn prynu / gwerthu cynhyrchion amaethyddol neu fwyd?**

Dewiswch: Ydy, fel ei brif weithgaredd – Ydy, ond dim ond fel gweithgaredd eilaidd – Nac ydy

**Cwestiwn 14. Os nad ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, beth yw prif bwrpas eich busnes?**

Dewiswch: Cynhyrchu cynradd – Prosesu / gweithgynhyrchu cynradd – Cyfanwerthu – Manwerthu – Arlwyo torfol: B2C (e.e. bwytai, gwestai, bwyd i fynd) – Arlwyo torfol: B2B (e.e. arlwywyr contract) – Corff masnach – Grŵp defnyddwyr – Arall (dywedwch beth) - amherthnasol

**Cwestiwn 15. Os nad ydych yn ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, dylech roi eich cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 5-digid**

[testun rhydd]

Amherthnasol

# Rhagarweiniad

Mae ffermio a diogelwch bwyd wrth galon polisi llywodraeth y DU. Mae gan ffermwyr rôl greiddiol i'w chwarae mewn bwydo'r wlad a gofalu am ein hamgylchedd gwledig. Mae ffermwyr y DU eisoes yn cynhyrchu tua 60% o'r bwyd a fwytawn, gyda sectorau bwyd-amaeth a bwyd môr y DU yn werth dros £120 biliwn i'r economi pob blwyddyn ac yn cyflogi dros 4 miliwn o bobl. O gael eu rheoli'n dda, mae da byw'n rhoi manteision amgylcheddol fel cynnal bioamrywiaeth a gwarchod cymeriad cefn gwlad yn ogystal â chynhyrchu incwm pwysig i gymunedau lleol. Mae ffermwyr Prydain yn ymfalchïo mewn cynhyrchu bwyd sy'n cwrdd ac yn aml yn rhagori ar ein safonau lles anifeiliaid ac amgylcheddol sydd ymhlith y rhai mwyaf blaenllaw drwy'r byd. Rydyn ni eisiau i'n ffermwyr gael eu gwobrwyo'n deg gan y farchnad am gynhyrchu bwyd Prydeinig da o safon uchel. Mae bwyd môr hefyd yn rhan allweddol o gadwyn gyflenwi'r DU ac ymfalchïwn, fel y dylem, yn y bwyd môr cynaliadwy, o safon, a hawdd ei olrhain sydd i'w gael neu'n cael ei ffermio yn y cefnfor o gwmpas y DU. Mae ein cynnyrch gwyllt neu a ffermir yn cyfrannu at ddiet cytbwys a maethlon a hefyd at ein cymunedau arfordirol. Rydym eisiau cynorthwyo pobl i fwyta mwy o fwyd môr sydd i'w gael yn lleol. Byddwn yn hyrwyddo cynhyrchwyr y DU ac yn eu cefnogi i gynhyrchu bwyd môr bendigedig y DU yn gynaliadwy gan gydnabod y rôl bwysig y mae bwyd môr a gynhyrchir yn gynaliadwy'n ei chwarae mewn hybu iechyd pobl a chyfrannu at ein sicrwydd bwyd.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (GI) yn ymrwymedig i greu system fwyd fwy tryloyw fel bod gan bobl wybodaeth well am y bwyd y maen nhw'n ei fwyta ac yn gallu gwneud dewisiadau sy'n adlewyrchu eu gwerthoedd.

Yn ôl y dystiolaeth mae defnyddwyr Prydain eisiau prynu bwyd o safon uchel a dywedwn yn glir a chyson na fyddwn yn cyfaddawdu ar ddiogelwch bwyd. Fodd bynnag, gall fod yn anodd adnabod yn glir o ble y daw a sut y cynhyrchir ein bwyd. Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth GI felly'n cyd-gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn i weld sut y gallwn roi gwybodaeth well i bobl am darddiad a safonau cynhyrchu rhai mathau o fwydydd o darddiad anifail. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau mwy gwybodus wrth brynu bwyd a dewis cynhyrchion sy'n cyfateb i'w gwerthoedd.

Gellir rhoi cynhyrchion a gynhyrchir o dan wahanol safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid ar farchnad y DU os ydynt yn cydymffurfio â'n gofynion diogelwch bwyd llym. Mae'n ofynnol yn barod i gig wedi'i fewnforio i'r DU fod wedi cael ei gynhyrchu i'n safonau hylendid a ffyto-hylendid ni (rheolau ar ddiogelwch bwyd a safonau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion).

Mae'r rheoliadau gwybodaeth bwyd yn nodi sut y dylid disgrifio neu arddangos gwybodaeth benodol a bod angen gwybodaeth orfodol benodol ar rai cynhyrchion. Ni ddylai unrhyw wybodaeth ychwaith gamarwain defnyddwyr. Fodd bynnag, nid yw peth o'r wybodaeth a ddefnyddir gan fusnesau i frandio a marchnata cynhyrchion wedi'i rhagnodi o

ran sut i’w harddangos. Arweiniodd hyn at amrediad o wahanol dermau gwirfoddol a ddefnyddir yn anghyson. Mae risg felly bod pobl yn methu â chymharu cynhyrchion yn glir a gwneud penderfyniadau prynu gwybodus. Gallai’r diffyg eglurder, cysondeb a thryloywder arwain at annhegwch i ddefnyddwyr a allai, yn ddiarwybod iddynt, fod yn prynu cynhyrchion sy’n groes i’w gwerthoedd, a hefyd i ffermwyr sydd o dan anfantais os nad yw eu safonau cynhyrchu uchel yn glir i ddefnyddwyr.

Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn holi barn am opsiynau i wneud labelu bwyd yn fwy tryloyw a chyson. Mae ffocws hyn ar fesurau i roi gwybodaeth gliriach am darddiad bwyd, ble y cafodd ei gynhyrchu, ac i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr am y system a ddefnyddiwyd i fagu’r anifeiliaid. Mae llawer o’r problemau’n ymwneud â labelu yn y sector bwyd môr yn debyg i’r rhai yn y sector bwyd o’r tir. Fodd bynnag mae gwahaniaethau hefyd oherwydd y gwahanol gadwyni gyflenwi, ardaloedd cynaeafu, gwahanol arferion defnyddwyr neu gynhyrchion bwyd môr gyda rhywogaethau cymysg o darddiad gwyllt ac wedi’i ffermio.

Mae labelu bwyd a lles anifeiliaid yn gyfrifoldebau polisi sydd wedi eu datganoli. Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd ar ran holl wledydd y DU a bydd yn helpu i oleuo polisi Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth GI ar y mater datganoledig hwn.

## Labelu Gwlad Tarddiad

### Y sefyllfa bresennol

Mae angen gwybodaeth am wlad tarddiad ar bob bwyd wedi’i rag-becynnu os byddai ei gadael allan yn camarwain defnyddwyr. Mae hefyd angen ei dangos ar gig ffres neu rewedig o wartheg bîff, defaid, geifr, moch a dofednod, a hefyd ar ffrwythau a llysiau ffres heb eu torri, mêl, olew olewydd, gwin a rhai cynhyrchion pysgod. Ar gyfer bwyd a brosesir, os yw tarddiad y prif gynhwysyn yn wahanol i darddiad y bwyd ei hun ac mae tarddiad y bwyd wedi’i ddangos, rhaid hefyd dangos bod tarddiad y prif gynhwysyn yn wahanol, neu’r tarddiad penodol. Ond os dangosir gwlad neu darddiad y bwyd, naill ai mewn geiriau neu luniau, rhaid i hyn fod yn gywir bob tro.

Er y rheolau hyn, yr argraff yw bod rhai bwydydd yn cael eu labelu mewn ffordd sydd ddim yn dryloyw am darddiad y bwyd. Er enghraifft os yw cig moch yn cael ei fewnforio i’r DU a’i halltu yma er mwyn cynhyrchu bacwn, mae’r bacwn wedyn yn gynnyrch Prydeinig a gellir ei labelu’n gyfreithlon fel Prydeinig. O dan y rheolau ar labelu, os yw’r bacwn yn yr enghraifft yma’n cael ei ddatgan yn wirfoddol fel Prydeinig, rhaid dangos datganiad amlwg ychwanegol bod y cig moch sy’n brif gynhwysyn y bacwn yn dod o darddiad gwahanol. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn glir iawn o’r label a gallai fod yn well gan rai pobl i’r pwyslais fod ar darddiad y cynhwysion yn hytrach na’r wlad weithgynhyrchu.

Hyd yn oed os yw’r wybodaeth am darddiad yn orfodol, mae’r rheolau ar leoli ac arddangos y wybodaeth yr un fath ag ar gyfer gwybodaeth arall; gall fod yn unrhyw le ar y

pecyn gan gynnwys y cefn, ac nid oes raid i uchder y testun fod yn ddim mwy na 1.2mm ar gyfer is-lythyren 'x'.

# Labelu dull cynhyrchu

## Y sefyllfa bresennol

Mae'r rheoliadau ar roi gwybodaeth am sut y mae anifeiliaid yn cael eu magu'n brin ar hyn o bryd.

Mae dwy safon farchnata mewn deddfwriaeth 'wedi'i chymathu' sy'n diffinio dulliau cynhyrchu. Ar gyfer wyau gyda phlisg, fel y rhai a werthir mewn bocsys wyau, maen nhw'n orfodol, ond yn wirfoddol ar gyfer cig dofednod heb ei brosesu. Nid ydynt yn berthnasol i gig bîff, oen, porc a chynnyrch llaeth, na chynhyrchion a brosesir neu a werthir drwy'r sector gwasanaeth bwyd, er enghraifft gan fwytai neu wasanaethau arlwyo.

Mae cyflwyno safonau marchnata gorfodol ar gyfer wyau plisg wedi dangos yn llwyddiannus os oes gan ddefnyddwyr wybodaeth well am sut y mae anifeiliaid yn cael eu magu, bod patrymau galw gan ddefnyddwyr yn dod yn glir a'r diwydiant bwyd yna'n ymateb. Yn yr achos hwn, arweiniodd at ddarparu mwy o gynhyrchion lles uwch mewn ymateb i'r galw hwn. Yn 2004 daeth yn ofynnol i wyau gael eu marcio naill ai fel: wyau cawell, ysgubor, maes neu organig. Penderfynodd lawer o fanwerthwyr hyrwyddo wyau maes a diwygio eu polisïau tarddiad ar ôl i ddefnyddwyr ddod yn fwy ymwybodol o les ieir. Ers hynny mae cyfran y farchnad o wyau maes yn y sector manwerthu wedi dyblu o tua 30% yn 2004 i dros 60% yn 2023.

Ar wahân i wyau, nid yw'n orfodol ofynnol dangos gwybodaeth am sut y cafodd anifeiliaid eu magu. Mae gwahanol gynlluniau labelu gwirfoddol gan y diwydiant yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i ddefnyddwyr – er enghraifft cynlluniau gwarant fferm, ymrwymiadau neu safonau gan rai archfarchnadoedd a thermau marchnata ansafonol. Mae cynlluniau gwarant y DU fel Tractor Coch, Quality Meat Scotland a Chynllun Gwarant yr RSPCA yn adnabyddus ac yn chwarae rôl bwysig mewn cynhyrchu da byw domestig. Fodd bynnag, mae eu pwyslais ar les anifeiliaid yn amrywio a dydyn nhw ddim yn berthnasol i gynhyrchion wedi eu mewnforio. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae ffermwyr y DU yn glynu wrth safonau lles uwch na llawer o wledydd eraill (gan gynnwys rhai sy'n atal defnyddio staliau hychod i gynhyrchu porc neu gewyll batri i gynhyrchu wyau), a phe gallai defnyddwyr adnabod hyn yn gliriach, efallai y byddent yn dewis prynu'r cynhyrchion sy'n cyfateb i'w gwerthoedd.

Mae rhai gwledydd wedi cyflwyno labelu'n barod er mwyn bod yn fwy tryloyw ac er lles anifeiliaid. Mae'r Almaen wedi cyflwyno labelu gorfodol ar gyfer porc, a'r Swistir ar gyfer wyau a chig cwningod.

## Pam y cynigiwn ddiwygio

Yn 2021 fe wnaethom gyhoeddi Galwad am Dystiolaeth ar y cyd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar labelu er mwyn lles anifeiliaid, i ddeall sut / a allai ddatrys methiannau presennol y farchnad. Derbyniwyd 1,633 o ymatebion a chrynhoir y rhain yn ein crynodeb o ymatebion gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd ar draws y DU. Mae'r rhain wedi ein helpu i lunio'r cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn ac wedi rhoi tystiolaeth o sut y gallai labelu gyflwyno'r manteision mwyaf i ddefnyddwyr, ffermwyr ac anifeiliaid, effeithiau posib y rhain ar fusnesau bwyd a ffermwyr, a sut y gellid lliniaru'r effeithiau hyn drwy ddylunio polisi'n ofalus.

Mae lles anifeiliaid yn bwysig i fwyafrif defnyddwyr y DU (98%) a dywedodd y rhan fwyaf (72-84%) y byddent yn fodlon talu mwy (tua 20-30% yn fwy) am fwyd o systemau cynhyrchu lles uwch. Fodd bynnag nid yw hyn bob tro'n troi'n weithredu ar bwynt prynu'r bwyd – gelwir hyn yn fwlch agwedd-ymddygiad. I'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddewis cynhyrchion sy'n cyfateb i'w gwerthoedd, mae angen i wybodaeth am y pethau hyn fod yn hygyrch a hawdd i'w deall. Rhaid i gynhyrchion lles uwch hefyd fod yn hygyrch, ar gael ac yn fforddiadwy.

Oherwydd methiannau'r farchnad ar hyn o bryd, nid yw hyn yn digwydd: er enghraifft mae tystiolaeth gref bod defnyddwyr yn teimlo bod gwybodaeth am les yn anhygyrch gan gwyno am ddiffyg tryloywder. Oherwydd natur wirfoddol y dulliau labelu presennol, mae labeli'n defnyddio lluniau neu iaith gymhleth ac anghyson a allai fod yn ddryslyd neu'n annelwig i ddefnyddwyr, neu efallai na fydd unrhyw wybodaeth o gwbl. Yn aml iawn nid yw cynhyrchion lles uwch ar gael ym mhob man, er enghraifft mewn siopau hwylus, ac maen nhw'n gallu bod yn llawer drytach. Er enghraifft, mae cyw iâr maes yn costio 115%[1] yn fwy'r cilo ar gyfartaledd, ac nid yw costau cynhyrchu uwch yn unig yn egluro hyn.

Hefyd, ar y funud, nid oes ffordd glir a chyson o wahaniaethu rhwng cynhyrchion ar sail eu hystyriaethau lles anifeiliaid, gan gynnwys rhai sy'n cwrdd neu'n rhagori ar reoliadau lles anifeiliaid sylfaenol y DU. Gall rhai defnyddwyr felly, yn ddiarwybod iddynt, fod yn prynu cynhyrchion sy'n groes i'w gwerthoedd.

Gallai mwy o dryloywder i ddefnyddwyr gynorthwyo ffermwyr y DU sy'n cwrdd yn barod ac sy'n aml yn rhagori ar ein safonau lles uchel sylfaenol, i gael eu cydnabod a'u gwobrwyo am y bwyd o safon uchel a gynhyrchir ganddynt i safonau lles uchel.

Gallai labelu dulliau cynhyrchu clir, safonol a gorfodol greu cymhellion marchnad i fagu anifeiliaid i safonau uwch a chynorthwyo'r ffermwyr hynny sy'n cwrdd neu'n rhagori ar reoliadau lles sylfaenol y DU i dderbyn pris uwch a fyddai'n adlewyrchu costau

[1] Ar sail prisiau o Sainsburys, Asda a Morrisons, Gorffennaf 2021.

cynhyrchion lles uwch. Gall labelu hefyd gynorthwyo ffermwyr i symud at arferion lles uwch sy'n cyd-fynd â gwerthoedd y cyhoedd a'r galw gan ddefnyddwyr, heb fod angen mwy o reoliadau gan lywodraeth.

## Ein cynigion

I geisio datrys methiannau presennol y farchnad a chwrdd ag ymrwymiadau'r llywodraeth, nod ein cynigion i ddiwygio labelu dull cynhyrchu yw:

- ei gwneud yn hawdd i ddefnyddwyr ddewis cynhyrchion bwyd sy'n cyfateb i'w gwerthoedd drwy sicrhau bod cynhyrchion lles uwch a sylfaenol y DU yn hygyrch, ar gael a fforddiadwy
- cefnogi ffermwyr i gwrdd neu ragori ar reoliadau lles sylfaenol y DU drwy sicrhau eu bod yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad
- gwella lles anifeiliaid drwy ddatgloi galw heb ei gwrdd yn y farchnad am gynhyrchion lles uwch

Ar sail yr ymateb i'r alwad am dystiolaeth, rydym wedi creu cyfres o egwyddorion canllaw ar gyfer diwygiadau posib i'r drefn labelu, a ddefnyddiwyd i lunio'r cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn. Y rhain yw y dylai'r diwygiadau:

- fod yn seiliedig ar ymchwil defnyddwyr a thystiolaeth gadarn
- adeiladu ar fesurau a weithredir yn barod a chysylltu i gynlluniau gwarant ac achredu sy'n bodoli'n barod, lle bo'n bosib
- cael eu cyd-ddatblygu â rhanddeiliaid ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, gan gynnwys y metrigau a'r safonau sy'n ategu unrhyw ddiwygio
- lleihau'r baich ar y diwydiant drwy gyflwyno mesurau lliniaru priodol (fel cyfnodau pontio a chydymffurfio digon hir) a chysylltu i ddiwygiadau labelu mewn meysydd eraill lle bynnag y bo'n bosib
- blaenoriaethu sectorau: sy'n gweithredu mesurau'n barod a gyda chytundeb cymharol eang ar ddiffiniadau o gynhyrchion (fel y termau marchnata gwirfoddol yn y rheoliadau ar farchnata cig dofednod); sydd â'r gwahaniaeth mwyaf mewn safonau lles; a gyda'r mwyaf o ddiddordeb gan ddefnyddwyr
- symleiddio gwybodaeth i'r defnyddiwr, er enghraifft drwy gysoni'r derminoleg a ddefnyddir ar draws gwahanol fanwerthwyr, gwasanaethau bwyd, categorïau cynhyrchion a gwahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi
- peidio â gor-eirio pecynnu bwyd a symleiddio labelu 'ar-baced' lle bo'n bosib

Yn ail hanner 2022 a dechrau 2023, buom yn ymgysylltu'n agos ag ystod eang o randdeiliaid perthnasol ar draws y gadwyn gyflenwi gan weithio â grŵp o'r Pwyllgor Lles Anifeiliaid (AWC) i adnabod mewnbynnau blaenoriaeth i bob sector a datblygu safonau sector-benodol dros dro. Os gweithredir y cynigion hyn a phrofir eu llwyddiant, gallwn ystyried ehangu'r diwygiadau labelu o dipyn i beth i sectorau a chynhyrchion eraill, ar ôl ymgynghori yn y dyfodol.

Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi ystyried egwyddorion Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar rwystrau di-dariff. Er mwyn cwrdd â'n rhwymedigaethau rhyngwladol, byddwn yn sicrhau bod ein diwygiadau gorfodol i labelu lles anifeiliaid yn osgoi gwahaniaethu yn erbyn cynhyrchion annomestig ac yn cyfyngu dim mwy ar fasnach na bo angen.

Datblygwyd y cynigion hyn i weithio ochr yn ochr ac ategu diwygiadau labelu bwyd posib eraill, gan gyfrannu at waith ehangach i wella gwydnwch systemau bwyd a ffermio domestig. Lle bo'n bosib, byddem yn cydgysylltu diwygiadau labelu er mwyn lleihau nifer y newidiadau label y byddai ei angen a lleihau'r baich ar ddiwydiant.

## Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

Gan adeiladu ar yr alwad am dystiolaeth, pwrpas yr ymgynghoriad yw holi barn am y cynigion manwl isod gan ystod eang o randdeiliaid ar draws y diwydiant bwyd, ffermwyr, milfeddygon, academyddion, partneriaid masnachu, sefydliadau defnyddwyr a lles anifeiliaid, cymdeithas sifil, defnyddwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r Asesiad Effaith (Atodiad C) i gyd-fynd â'r cam ymgynghori wedi'i baratoi i asesu costau a manteision posib y cynnig hwn.

Gofynnwn am eich mewnbwn o ran effaith y cynigion hyn fel y gallwn:

- profi a fydd y cynigion yn rhoi'r manteision bwriedig i ddefnyddwyr, ffermwyr ac anifeiliaid
- deall effeithiau'r cynigion yn llawn
- sicrhau'r manteision mwyaf a lleihau'r beichiau ar ddiwydiant os gweithredir y cynigion

Byddem yn falch iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth fel y gallwn asesu'r effeithiau'n fwy manwl, er enghraifft ar sectorau penodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynorthwyo i ddarparu dau ymrwymiad a wneir yn [Strategaeth Fwyd Llywodraeth y DU:]

- ymgynghori ar gynigion i wella ac ehangu'r gofynion labelu dull cynhyrchu gorfodol presennol ar gyfer lles anifeiliaid, a chyflwyno mesurau cyfatebol yn y sector gwasanaeth bwyd
- ystyried a fyddai'n bosib cryfhau'r rheolau presennol ar wledydd tarddiad drwy orfodi sut a ble y dylid dangos gwybodaeth am wlad tarddiad bwyd, er enghraifft ar flaen y pecyn.

## Sgôp daearyddol yr ymgynghoriad hwn

Cynigiwn weithredu'r diwygiadau hyn ar draws y DU er mwyn cael dull cyson drwy holl wledydd y Deyrnas Unedig, gan nodi egwyddorion mynediad i'r farchnad Deddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA) 2020, sef cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu. Mae'r egwyddorion hyn yn golygu bod modd i nwyddau a werthir yn gyfreithlon yn y rhan o'r DU y cawsant eu 'cynhyrchu ynddi' neu eu 'mewnforio iddi' gael eu gwerthu mewn unrhyw ran arall o'r DU heb unrhyw ofynion a fyddai'n eu rhoi dan anfantais o'i gymharu â nwyddau a gynhyrchir yn lleol.

Ar hyn o bryd mae deddfwriaeth yr UE a'r DU yn eithaf tebyg o ran safonau marchnata dull cynhyrchu a labelu gwlad tarddiad gyda mân wahaniaethau'n unig. Rydym yn ystyried sut i wella safonau marchnata presennol y DU i adlewyrchu'r systemau cynhyrchu presennol, symleiddio deddfwriaeth a pharhau i fasnachu'n ddidrafferth â'r UE, ynghyd â gwelliannau posib i labelu gwlad tarddiad bwyd. Pe cyflwynir y diwygiadau ar draws y DU, byddem yn sicrhau bod y rhai terfynol yn gweithio ochr yn ochr ag unrhyw ofynion labelu bwyd perthnasol gan yr UE. Dylid ateb pob cwestiwn drwy gydol yr ymgynghoriad hwn gan dybio y bydd unrhyw ddiwygiadau yn rhai traws-DU. Byddwn hefyd yn holi barn nes ymlaen am sut y byddai effaith y cynigion hyn yn wahanol pe bai'r ddeddfwriaeth ond yn cael ei chyflwyno ar draws y DU.

## Geirfa

Mae geirfa o'r gwahanol dermau a diffiniadau wedi'i chynnwys i bwrpas cyfeiriol yn Atodiad A, i'w darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

# Rhan A: Labelu Gwlad Tarddiad

## Sgôp yr ymgynghoriad

Rydym yn holi barn am, a gofyn am dystiolaeth o, ymyriadau posib a allai wella dealltwriaeth y defnyddiwr o darddiad rhai bwydydd, gan gynnwys sut a ble y mae'r wybodaeth am wlad tarddiad yn cael ei dangos ac ar ba gynhyrchion y dylai'r wybodaeth fod yn orfodol.

Dyma rai o'r opsiynau y gofynnwn am fwy o dystiolaeth arnynt:

- labelu tarddiad gorfodol ar gyfer cynhyrchion cig a fân-brosesir
- labelu tarddiad mwy amlwg
- labelu tarddiad gorfodol ar gyfer rhai bwydydd yn y sector 'tu allan i'r cartref'
- mwy o reolaeth ar ddefnyddio baneri gwledydd

Rydym hefyd yn holi barn yn fwy cyffredinol am sut y mae bwyd môr yn cael ei labelu.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Er bod yn rhaid i rai bwydydd (cig neu bysgod ffres, rhewedig, heb ei brosesu, rhag-becynnu) ddangos gwybodaeth tarddiad, nid oes raid i fwydydd eraill y gallai eu tarddiad fod o ddiddordeb i'r defnyddiwr (cig a fân-brosesir fel bacwn a ham, tafelli pysgod ag araen arnynt, neu ddarnau cyw iâr amrwd wedi'i flasuso).

Mae cynhyrchion a brosesir yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o'r holl galorïau a fwyteir gan oedolion yn y DU. Mae dros dri chwarter o holl wariant aelwydydd y DU ar borc yn mynd ar gynhyrchion a brosesir. Mae cynhyrchion a fân-brosesir – selsig, bacwn a thafelli cig wedi eu coginio (fel ham) yn cyfrif am dros 90% o'r holl borc a brosesir.

**Cwestiwn 16 a) Pa mor bwysig yn eich barn chi yw bod y rheolau ar labelu gwlad tarddiad gorfodol yn cael eu newid i gynnwys bwydydd a fân-brosesir, yr un fath â chig heb ei brosesu?**

[Pwysig iawn / Pwysig / Niwtral / Ddim yn bwysig iawn / Ddim yn bwysig o gwbl / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 16 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

[testun rhydd]

Hoffem gael gwybod gennych ba gynhyrchion i'w cynnwys, pe bai labelu gwlad tarddiad yn cael ei ehangu i gynnwys cigoedd a fân-brosesir.

Gallem ddiffinio pa gynhyrchion cig a fân-brosesir y byddai angen dangos gwlad tarddiad ar eu labeli, ar sail rhestr ddiffiniol o gynhyrchion.

**Cwestiwn 17. Pa bum cynnyrch cig a fân-brosesir fyddai'r rhai pwysicaf i'w cynnwys?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 18. Os na fyddem yn defnyddio rhestr, disgrifiwch unrhyw ddulliau eraill y byddech yn eu hawgrymu i ddiffinio pa gigoedd a fân-brosesir i'w cynnwys?**

[blwch testun rhydd]

Mae defnyddwyr yn aml yn cymryd bod baneri gwlad ar fwyd yn dangos ei darddiad. O dan y rheolau presennol ar labelu bwyd, os dangosir baner ar fwyd, rhaid egluro'n glir i ddefnyddiwr os nad yw'r bwyd hwnnw'n tarddu o wlad y faner a ddangosir, neu os daw prif gynhwysyn y bwyd o wahanol wlad neu darddiad.

**Cwestiwn 19 a) A oes angen rheoleiddio mwy ar ddefnyddio baneri gwlad ar fwyd?**

[Oes / Nag oes / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 19 b) Os 'oes', sut y byddech yn rheoleiddio mwy ar ddefnyddio baneri gwlad ar fwyd?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 20. A ddylid cael mesurau rheoli pellach ar ddefnyddio baneri ar labeli bwyd?**

[Dylid [eglurwch ba fesurau rheoli pellach sydd eu hangen] / Na ddylid / Ddim yn gwybod]

Y gofyniad sylfaenol ar gyfer gwybodaeth orfodol ar fwyd yw bod uchder is-lythyren 'x' yn 1.2mm neu'n fwy. Nid oes gofynion lleoli ar gyfer y wybodaeth yma ac mae fel arfer yn cael ei rhoi yng nghanol gwybodaeth arall ar gefn y pecyn. Os oes angen gwybodaeth am darddiad prif gynhwysyn y bwyd, a hwnnw'n wahanol i'r bwyd ei hun, rhaid ei ddangos mewn testun sydd o leiaf 75% maint y wybodaeth am darddiad y bwyd ac yn yr un lle, neu'n unol â'r uchod, pa un bynnag sydd fwyaf.

**Cwestiwn 21. A ddylid cael gofyniad ychwanegol i roi gwybodaeth orfodol am darddiad ar flaen y pecyn?**

[Dylid / Na ddylid / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 22. Beth ddylai'r maint ffont lleiaf fod ar gyfer labelu tarddiad gorfodol?**
[Aros yr un fath / Mwy nag uchder 'x' o 1.2mm / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 23. A ddylai tarddiad bwyd ysgrifenedig gynnwys baner gwlad neu symbol arall?**

[Ie, baner y wlad / Ie, symbol gwahanol (dywedwch beth) / Dim angen / Ddim yn gwybod]

O gofio ein bod yn awyddus i ysbrydoli defnyddwyr yn y DU i brynu a bwyta mwy o fwyd môr wedi'i ddal yn lleol, rydym eisiau gweithio'n agosach â rhanddeiliaid i ddeall ymddygiad defnyddwyr y sector bwyd môr yn well fel rhan o'n helpu i adnabod pa ymyriadau labelu a fyddai fwyaf llwyddiannus.

Er nad ydym yn cyflwyno cynigion penodol ar fwyd môr ar hyn o bryd, rydym yn holi barn i'n helpu i ddatblygu ein polisïau ar y mater o labelu yn y sectorau bwyd môr a ddaliwyd yn wyllt ac wedi'i ffermio.

**Cwestiwn 24. Pa rôl ddylai'r gofynion labelu ar gyfer bwyd môr, a ddaliwyd yn wyllt neu a ffermiwyd, ei chwarae mewn annog defnyddwyr i brynu mwy o fwyd môr a ddaliwyd neu a ffermiwyd yn lleol?**

Mae gan wybodaeth fwyd a ddangosir pan werthir bwyd drwy gyfathrebu o bell, gan gynnwys mewn siopau ar-lein, lawer o'r un gofynion gwybodaeth â bwyd a werthir mewn siop ar y stryd. Fodd bynnag nid yw bob tro'n glir pan archebir ar-lein beth yw tarddiad rhai bwydydd, hyd yn oed pan fo'r wybodaeth yma'n orfodol.

**Cwestiwn 25. Ydych chi'n meddwl bod gwybodaeth am darddiad bwyd yn ddigon clir pan fo'n cael ei werthu ar-lein (naill ai drwy siop groser prif ffrwd, neu siop amryw-nwyddau arall)?**

[Ydy mae'n ddigon clir / Na dim digon clir / Mae'n amrywio / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 26. Pa welliannau fyddech chi'n hoffi eu gweld i sut y mae gwybodaeth am darddiad bwyd yn cael ei dangos ar-lein, os o gwbl?**

[blwch testun rhydd]

[Dim / Ddim yn gwybod]

Rhaid i wybodaeth am darddiad, gan gynnwys mewn caffi neu fwyty, fod yn gywir a pheidio â chamarwain defnyddwyr. Fodd bynnag, nid oes raid dangos y wybodaeth yn y lleoliadau 'tu allan i'r cartref' hyn.

**Cwestiwn 27 a) A ddylai fod yn orfodol ofynnol i'r sector 'tu allan i'r cartref' ddangos tarddiad cynhyrchion cig, pysgod a / neu laeth?**

[Dylai / Na ddylai / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 27 b) Os dylai, sut fath o ofyniad ddylai hwn fod?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 28. A ddylai'r gofynion hyn fod yr un mor berthnasol i bob busnes bwyd 'tu allan i'r cartref'?**

[Dylai / Na ddylai – nodwch ba fusnesau y byddai angen gwahanol ofynion a / neu eithriadau / Ddim yn gwybod]

Gwyddom fod unrhyw newid labelu a gwybodaeth yn cymryd amser ac yn costio i fusnesau. Am y rheswm hwn, bydd y newidiadau fel arfer yn cael eu cyflwyno gydag amserlen weithredu ynghyd â rhai eithriadau neu amser gweithredu ychwanegol i fusnesau llai.

**Cwestiwn 29. Pe bai mesurau fel tarddiad gorfodol ar gyfer cynhyrchion cig a fân-brosesir, gwneud labeli tarddiad yn fwy amlwg, rheoli defnyddio baneri gwlad a / neu labelu tarddiad gorfodol ar gyfer y sector bwyd 'tu allan i'r cartref' yn cael eu cyflwyno, beth yn eich barn chi fyddai amserlen realistig i fusnesau weithredu polisïau o'r fath o bwynt eu cyhoeddi?**

[Blwyddyn / 2 flynedd / 3 blynedd / 4 blynedd / 5+ mlynedd / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 30. Pa eithriadau y dylid eu rhoi os o gwbl?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 31. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut i 'lyfnhau' costau a chymhlethdod gweithredu'r newidiadau hyn?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 32. A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwella gwybodaeth gwlad tarddiad?**

[blwch testun rhydd]

# Rhan B: Labelu dull cynhyrchu

## Crynodeb o’r cynigion labelu

Yn y rhan yma rydym yn holi barn am gynigion i roi gwybodaeth gliriach i ddefnyddwyr am y system gynhyrchu a ddefnyddir i fagu anifeiliaid. Bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn ein helpu i gytuno’n derfynol ar bolisi ar hyn i’r dyfodol.

Crynhoir ein cynigion polisi craidd isod:

- Label gorfodol ar borc, cyw iâr ac wyau ar gyfer cynhyrchion domestig ac wedi eu mewnforio.
- Label gyda phum haen a safonau ategol sy’n bennaf seiliedig ar ddull cynhyrchu, gan wahaniaethu rhwng cynhyrchion sy’n disgyn o dan, yn cwrdd, a’n rhagori ar reoliadau lles sylfaenol perthnasol y DU.
- Byddai hyn yn berthnasol i bob cynnyrch porc, cyw iâr ac wyau heb eu prosesu ac i rai bwydydd rhydd a fân-brosesir wedi eu rhag-becynnu gyda phorc, cyw iâr neu wy ynddynt.

Rydym yn holi barn am bob elfen. Byddem hefyd yn croesawu adborth ar elfennau mwy manwl y polisi lle’r ydym yn cyflwyno ystod o opsiynau. O gael eu gweithredu, byddai’r diwygiadau’n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy’n ysgafnu’r baich ar ddiwydiant, drwy gysylltu i gylchoedd busnes arferol ar gyfer newid labeli, a byddem yn ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid i sicrhau hyn.

## Dull labelu

Yn ein galwad am dystiolaeth, roeddem yn holi barn am ba un o’r dulliau canlynol a fyddai fwyaf effeithiol i gyflawni ein hamcanion polisi:

- gofynion bod honiadau o ran dull cynhyrchu a wneir yn **wirfoddol** ar label yn cydymffurfio â diffiniad cyfreithiol safonol, neu
- gofynion i **orfodi** cynnwys gwybodaeth am ddull cynhyrchu

Roedd yr ymatebion yn tueddu tuag at ddull gorfodol, gan gyfeirio’n enwedig at lwyddiant y labelu gorfodol ar gyfer wyau.

**Ar sail hyn, rydym yn holi barn am gynigion i wella ac ehangu labelu dull cynhyrchu gorfodol** ar gyfer cynhyrchion porc, cyw iâr ac wyau. Yn ymarferol mae hyn yn golygu:

- gwella’r gofynion labelu gorfodol presennol ar gyfer wyau.
- symud o ofynion labelu gwirfoddol ar gyfer cyw iâr, at labelu gorfodol.
- cyflwyno gofynion labelu gorfodol ar gyfer porc, gan adeiladu ar gôd Tarddiad Porc gwirfoddol y diwydiant.

Dywedodd rai wnaeth ymateb i'n galwad am dystiolaeth fod yn well ganddynt labelu gwirfoddol, a'i fod yn llai o faich ar ddiwydiant. Gall labelu gwirfoddol fod yn llai effeithiol oherwydd nad yw pob cynnyrch yn cael ei labelu, a llai o dryloywder i ddefnyddwyr felly. Gall hefyd fod yn anodd iawn deall gwybodaeth sydd weithiau'n absennol neu wedi'i chyflwyno'n wahanol o un cynnyrch i'r llall. Dim ond labelu gorfodol allai sicrhau gwybodaeth gyson a rhoi'r manteision cysylltiedig. Yn enwedig, mae angen labelu gorfodol fel y gall defnyddwyr adnabod pa gynhyrchion sydd ddim yn cwrdd â rheoliadau lles sylfaenol y DU, oherwydd ni fyddai label o'r fath yn wirfoddol. Roedd ymatebwyr ar draws ystod o wahanol sefydliadau ac unigolion yn pwysleisio hyn fel mantais bosib i labelu y gallai labelu gorfodol ei rhoi.

**Cwestiwn 33 a) Ydych chi'n cytuno y dylai labelu dull cynhyrchu fod yn orfodol?**

[Dylai / Na ddylai / Ddim yn gwybod / Dim barn]

**Cwestiwn 33 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda. Os ateboch 'na ddylai', eglurwch unrhyw ddulliau eraill y teimlwch fyddai'n effeithiol i ddarparu gwybodaeth esboniadol, gyson a hygyrch am ddull cynhyrchu i ddefnyddwyr.**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 34 a) Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw labelu dull cynhyrchu gorfodol newydd fod ar gyfer cynhyrchion domestig ac a fewnforiwyd?**

[Dylai / Na ddylai / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 34 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 35. Pa newidiadau y byddai angen i'ch busnes eu gwneud er mwyn cyflwyno cynllun labelu dull cynhyrchu gorfodol?**

[blwch testun rhydd]

**Cyfnod gweithredu**

Yn yr alwad am dystiolaeth, roeddem yn gofyn am y gost i fusnesau oherwydd newidiadau labelu, a sut y gallai'r costau gael eu lleihau.

Ar sail yr ymatebion, **cynigiwn gyfnod gweithredu 18 mis yn dilyn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth**, fel y gallai newidiadau labelu gael eu hymgorffori yn y cylchoedd busnes presennol, gan helpu i liniaru costau labelu i raddau helaeth. O gael eu gweithredu, byddem hefyd yn cysylltu'r newidiadau i ddiwygiadau labelu perthnasol eraill lle bo'n bosib, fel na fyddai angen nifer o newidiadau labelu. Mae ein hasesiad effaith yn dangos ar sail asesiad rhannol o'r effeithiau ar hyn o bryd, y byddai'r cynnydd mewn costau, er bod labelu gorfodol yn creu costau ychwanegol o'i gymharu â labelu gwirfoddol, yn cael ei

wrthbwyso gan y manteision i fusnesau domestig. Dylid darllen yr Asesiad Effaith atodol am fwy o wybodaeth.

**Cwestiwn 36 a) Ydych chi'n meddwl bod y cyfnod gweithredu o 18 mis, er mwyn lleihau'r gost a fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno labelu gorfodol newydd, yn briodol?**

[Rhy hir / Tua iawn / Rhy fyr / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 36 b) Os nad ydych yn cytuno â'r cyfnod gweithredu a gynigir, pa gyfnod gweithredu ydych chi'n meddwl y dylid ei roi i helpu i leihau'r gost a fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno labelu gorfodol newydd?**

[Maes rhifol 0-60 mis]

**Cwestiwn 36 c) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

[testun rhydd]

**Cwestiwn 37. A gredwch fod unrhyw ffyrdd eraill o leihau'r gost i fusnesau a fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno labelu gorfodol newydd?**

[testun rhydd]

## Sgôp y labelu

Mae ein cynigion yn ymwneud â bwyd sydd i'w fwyta gan bobl. Gellir gwahaniaethu rhwng cynhyrchion bwyd yn ôl eu cynhwysion (er enghraifft, o ba anifail y daethant), faint y mae'r bwyd wedi'i brosesu (er enghraifft, cig ffres heb ei brosesu neu gynhyrchion a fân-broseswyd fel bacwn neu gig mewn pryd parod), sut y cafodd ei becynnu (er enghraifft bwyd rhydd neu wedi'i rag-becynnu) a ble y gwerthir y bwyd (er enghraifft, archfarchnadoedd, cigyddion, stondinau marchnad neu sefydliadau gwasanaeth bwyd fel ysbytai, ysgolion neu fwytai).

Yn dilyn cyflwyno'r rheoliad 'wedi'i gymathu' ar roi gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, diffiniwn labelu fel "unrhyw eiriau, manylion, nod masnach, enw brand, deunydd darluniol neu symbol yn ymwneud â bwyd ac a roddir ar unrhyw becynnu, dogfen, hysbysiad, label, modrwy neu goler yn dod gyda neu'n cyfeirio at fwyd o'r fath". Mae hyn yn golygu y gallai "labelu" gyfeirio at wahanol fathau o wybodaeth fwyd, gan ddibynnu ar y cyd-destun. Er enghraifft, gallai gyfeirio at label ffisegol ar baced o ham, neu at arwydd wrth ymyl toriad porc mewn siop gigydd.

Mae'r rhannau canlynol yn disgrifio sgôp posib ein cynigion labelu ar draws y gwahanol feysydd hyn.

## Sgôp: rhywogaethau

Er mwyn sefydlu pa gynhyrchion o darddiad anifail sydd o fewn sgôp y cynigion labelu cychwynnol, ystyriwyd pa rywogaethau da byw y byddai ein cynigion yn berthnasol iddynt. **Cynigiwn fod labelu gorfodol yn cael ei gyflwyno i ddechrau ar gyfer porc, cyw iâr ac wyau (a gynhyrchir gan ieir dodwy'n unig), a rhai cynhyrchion sy'n eu cynnwys,** oherwydd bod y cynhyrchion hyn:

- gyda'r gwahaniaeth mwyaf o ran systemau cynhyrchu (er enghraifft ieir a gedwir mewn cewyll wedi'u cyfoethogi o'i gymharu â ieir mewn systemau maes), ac felly'n rhai y mae defnyddwyr yn galw fwyaf am wybodaeth am sut y mae'r anifeiliaid yn cael eu magu
- yn cael eu bwyta fwyaf yn y DU, gan felly roi gwybodaeth am y nifer fwyaf o anifeiliaid
- gyda'r cadwyni cyflenwi symlaf sy'n golygu y byddai'n haws gweithredu mesurau olrhain, monitro a gorfodi labelu (er yn cydnabod y byddai cymhlethdodau sylweddol o hyd)
- gyda'r lefel fwyaf o gonsensws ynghylch beth yw lles da, gyda diffiniadau o safonau cynhyrchu eisoes yn eu lle er mwyn gallu adeiladu arnynt

Pe bai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu ac yn llwyddiannus, byddem yn ystyried cyflwyno labelu dull cynhyrchu gorfodol ar gyfer cynnyrch llaeth, bîff a chig dafad. Byddem yn ymgynghori ymhellach ar unrhyw ddiwygiadau pellach ar gyfer rhywogaethau eraill.

**Cwestiwn 38 a) Ydych chi'n cytuno y dylai diwygiadau labelu ganolbwyntio i ddechrau ar gig moch, cyw iâr ac ieir dodwy?**

[Ydw, dylai labelu ganolbwyntio i ddechrau ond ar y tair rhywogaeth yma / Ydw ond dylai labelu gynnwys mwy o rywogaethau da byw o'r dechrau / Na, dylai labelu ganolbwyntio ar lai o rywogaethau da byw neu rai gwahanol / Arall (eglurwch isod) / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 38 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**
[testun rhydd]

## Sgôp: lefel y prosesu

Fel y mae Rhan A yn ei amlinellu, mae cynhyrchion a brosesir yn gyfran sylweddol o'r bwyd a fwyteir yn y DU. Roedd yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn pwysleisio pwysigrwydd ehangu diwygiadau labelu i fwyd wedi'i brosesu'n ogystal â bwyd heb ei brosesu – yn enwedig o gofio bod safonau lles is yn fwy cyffredin mewn bwydydd sydd wedi eu prosesu mwy. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion hefyd yn pwysleisio cymhlethdod a chost bosib labelu cynhyrchion a brosesir, gan nodi bod mwy o heriau gyda mwy o brosesu. Er enghraifft, byddai prydau parod a allai gynnwys mwy nag un cynnyrch anifail fod yn anoddach eu labelu na chynhyrchion wedi eu prosesu llai.

**Ar sail yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth, cynigiwn fod labelu gorfodol yn cael ei gyflwyno i ddechrau ar gyfer porc, cyw iâr ac wyau heb ei brosesu a rhai cynhyrchion porc, cyw iâr neu wyau a fân-brosesir.**

Hoffem wybod beth yw eich barn am ba gynhyrchion a fân-brosesir i'w cynnwys. Ni chynigiwn gynnwys mwy o gynhyrchion a broseswyd yn sgôp y diwygiadau cychwynnol. Credwn mai hyn yw'r cydbwysedd gorau rhwng budd i'r defnyddiwr â'r hyn sy'n ymarferol i'r diwydiant bwyd.

Mae rheoliadau sydd eisoes mewn grym yn diffinio lefel brosesu'r bwyd mewn termau naill ffordd neu'r llall – naill ai wedi neu heb ei brosesu. Ar hyn o bryd nid oes diffiniad wedi'i gytuno o gynhyrchion a fân-broseswyd. Rydym felly eisiau deall pa gynhyrchion a fân-brosesir i flaenoriaethu eu cynnwys mewn sgôp unrhyw ddiwygiadau.

> mae 'cynhyrchion heb eu prosesu' yn golygu bwydydd heb gael eu prosesu ac yn cynnwys rhai sydd wedi cael eu rhannu, ymwahanu, hollti, tafellu, tynnu oddi ar yr asgwrn, minsio, blingo, malu, torri, glanhau, trimio, tynnu'r plisg, melino, oeri, rhewi, dwfn-rewi neu feirioli.
>
> mae 'cynhyrchion a brosesir' yn golygu bwydydd a gynhyrchir o brosesu cynhyrchion heb eu prosesu. Gall y rhain gynnwys cynhwysion sydd eu hangen i weithgynhyrchu'r cynnyrch, neu i roi nodweddion penodol iddo. Mae 'prosesu' yn golygu unrhyw broses sy'n newid y cynnyrch gwreiddiol yn sylweddol, gan gynnwys gwresogi, mygu, halltu, aeddfedu, sychu, marinadu, echdynnu, allwthio neu gyfuniad o'r prosesau hyn.

**Cwestiwn 39 a) Pa mor bwysig yn eich barn chi yw bod labelu dull cynhyrchu yn cynnwys cynhyrchion anifail a brosesir yn ogystal â rhai heb eu prosesu?**

[Pwysig iawn / Pwysig / Niwtral / Ddim yn bwysig iawn / Ddim yn bwysig o gwbl / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 39 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 40 a) Ydych chi'n cytuno y dylai labelu gynnwys cynhyrchion porc, cyw iâr ac wyau a fân-brosesir?**

**Porc (er enghraifft, bacwn)**

[Ydw, dylai labelu gynnwys cynhyrchion a fân-brosesir / Ydw, ond dylai labelu gynnwys mwy o gynhyrchion a brosesir o'r dechrau / Na, dylai labelu ond cynnwys cynhyrchion heb eu prosesu / Ddim yn gwybod]

**Cyw iâr (er enghraifft, tafelli cyw iâr wedi'i goginio)**

[Ydw, dylai labelu gynnwys cynhyrchion a fân-brosesir i ddechrau / Ydw, ond dylai labelu gynnwys mwy o gynhyrchion a brosesir o’r dechrau / Na, dylai labelu ond cynnwys cynhyrchion heb eu prosesu i ddechrau / Ddim yn gwybod]

**Wyau (er enghraifft, wyau wedi’u berwi)**

[Ydw, dylai labelu gynnwys cynhyrchion a fân-brosesir i ddechrau / Ydw, ond dylai labelu gynnwys mwy o gynhyrchion a brosesir o’r dechrau / Na, dylai labelu ond cynnwys cynhyrchion heb eu prosesu i ddechrau / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 40 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 41 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch ei bod yn bwysig bod y cynhyrchion a broseswyd canlynol yn cael eu labelu gyda safonau dull cynhyrchu?**

- ❑ bacwn [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ selsig [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ gamwn [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ cig porc wedi’i goginio a’i dafellu, fel ham [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ wyau selsig [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ cyw iâr briwsiog [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ cyw iâr parod i’w goginio [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ cig cyw iâr wedi’i goginio a’i dafellu, fel tafelli cyw iâr [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ gwynwy [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ wyau wedi’u berwi [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ quiche [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]
- ❑ cig wedi’i farinadu [Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 41 b) Os hoffech gynnig blaenoriaeth labelu arall, cynigiwch hyn isod os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd]

Gallem ddiffinio pa gynhyrchion a fân-brosesir y byddai'r diwygiadau labelu dull cynhyrchu'n berthnasol iddynt, ar sail rhestr ddiffiniol o gynhyrchion, wedi'i dywys gan yr ymatebion a dderbyniwn drwy'r ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 42. Os na fyddem yn defnyddio rhestr, disgrifiwch unrhyw ddulliau eraill y byddech yn eu hawgrymu i ddiffinio pa gigoedd a fân-brosesir i'w cynnwys?**

[testun rhydd]

**Penderfyniadau ac effeithiau ar fusnesau**

Er mwyn darparu cyflenwad parhaus, gall cwmnïau bwyd brynu porc, cyw iâr ac wyau ar gyfer yr un cynnyrch gan amryw o wahanol gyflenwyr a allai fod â gwahanol safonau cynhyrchu. Gallai gwahanu'r rhain yn ôl safonau cynhyrchu fod yn gostus a gwastraffus. Yn yr alwad am dystiolaeth, roeddem yn gofyn am adborth ar sut i leihau'r effaith ar y gadwyn gyflenwi drwy ddyluniad polisi da. Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebion y byddai'r egwyddorion canlynol yn lleihau'r effaith ar y gadwyn gyflenwi a fyddai'n gysylltiedig â labelu cynhyrchion a brosesir, yn enwedig y gost wahanu:

- Dyrannu safonau cynhyrchu i gynhwysyn ar sail y safon lles anifeiliaid isaf mewn 'batsh', fel na fyddai angen gwahanu
- Labelu safon cynhyrchu dim ond un cynhwysyn, ar gyfer cynhyrchion a brosesir yn cynnwys mwy nag un math o gynnyrch anifail.

**Cynigiwn symud ymlaen â'r egwyddorion hyn gydag unrhyw ddiwygiadau labelu ar gyfer cynhyrchion a fân-brosesir.** Byddai hyn yn golygu, er enghraifft:

- y byddai wy selsig ond yn cael ei labelu gyda safonau cynhyrchu porc neu wy (pa bynnag un a fyddai'n bresennol fwyaf), nid gyda'r ddau
- gallai busnes bwyd yn prynu o ffermydd sy'n cynhyrchu i safonau haen 3 a haen 4 ar gyfer 'teulu' o gynhyrchion labelu'r holl gynhyrchion hyn fel haen 4 i osgoi bod angen eu gwahanu (neu ddewis labelu pob pecyn ar wahân)

**Cwestiwn 43 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch â'n cynnig i labelu safon cynhyrchu dim ond un cynhwysyn, wrth labelu cynhyrchion a fân-brosesir (er enghraifft wyau selsig)?**

*[Cytuno'n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Ddim yn gwybod]*

**Cwestiwn 43 b) Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddyrannu safonau cynhyrchu ar sail y safon lles anifeiliaid isaf mewn 'batsh'?**

[Ydw, dw i'n cytuno y dylid labelu'r safon isaf / Na, dw i'n meddwl y dylid labelu'r safon uchaf / Na, dw i'n meddwl y dylid labelu cynhyrchion fel rhai'n cynnwys cymysgedd o safonau lles / Ddim yn gwybod]

**Sgôp: sut y mae cynhyrchion yn cael eu pecynnu**

Mae gwahanol reolau labelu'n berthnasol gan ddibynnu ar sut y cyflwynir bwyd – er enghraifft, a yw wedi'i becynnu ar gais y defnyddiwr, wedi'i rag-becynnu i'w werthu'n uniongyrchol, neu wedi'i rag-becynnu mewn ffatri cyn ei werthu. Mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys bacwn a werthir yn rhydd ar gownter cig mewn archfarchnad neu siop gigydd, wedi'i rag-becynnu i'w werthu'n uniongyrchol mewn siop fferm neu stondin marchnad, neu wedi'i rag-becynnu mewn ffatri cyn ei werthu ar silffoedd archfarchnad.

Blwch gwybodaeth: Diffiniadau

Bwydydd wedi eu rhag-becynnu: unrhyw eitem unigol i'w chyflwyno felly i'r defnyddiwr terfynol ac i fusnesau arlwyo torfol, sy'n cynnwys bwyd a'r pecynnu y cafodd ei roi ynddo cyn ei gynnig i'w werthu, p'un ai yw'r pecynnu'n amgáu'r bwyd yn llwyr neu ond yn rhannol, ond sut bynnag fel na ellir newid y cynnwys heb agor neu newid y pecynnu. Nid yw bwyd wedi'i rag-becynnu'n cynnwys bwyd a becynnir ar safle'r gwerthwr ar gais y defnyddiwr, neu a becynnir i'w werthu'n uniongyrchol (yn ôl y diffiniad yn rheoliad 1169/2011 wedi'i gymathu ar roi gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr).

Bwyd a rag-becynnir i'w werthu'n uniongyrchol: bwyd a becynnir yn yr un lle ag y mae'n cael ei gynnig neu werthu i ddefnyddwyr ac sydd yn y deunydd pecynnu cyn ei archebu neu ddewis – e.e. brechdan hunan-frand mewn caffi (diffiniad yn ôl canllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a chanllawiau Safonau Bwyd Yr Alban).

Rydym felly wedi ystyried ble y dylai labelu fod yn berthnasol a ble y dylid cynnwys gwybodaeth ar arwyddion neu hysbysiadau gerllaw'r cynhyrchion bwyd perthnasol yn achos bwydydd heb eu rhag-becynnu. Gan ddilyn y rheoliadau uchod, cynigiwn fel a ganlyn:

• labelu pob porc, cyw iâr neu wy heb ei brosesu sut bynnag y mae wedi'i becynnu neu ble bynnag y mae'n cael ei werthu. Mae hyn yn cynnwys 'bwyd rhydd' fel ystlys porc a werthir mewn marchnad fwyd neu siop gigydd annibynnol, yn ogystal â 'bwyd wedi'i rag-becynnu' fel dau-baced o frest cyw iâr o'r archfarchnad.

•rhaid i fwyd rhydd wedi'i rag-becynnu a'i fân-brosesu'n cynnwys porc, cyw iâr neu wy, sydd o fewn sgôp, gael ei labelu (i'w werthu i'r defnyddiwr terfynol neu gwmni arlwyo torfol), heblaw bwyd a werthir gan gwmni arlwyo torfol yn barod i'w fwyta. Gwerthir y rhan fwyaf o'r cynhyrchion sy'n rhaid eu labelu gan fanwerthwyr ond gallent gynnwys rhai a werthir yn y sector gwasanaeth bwyd fel wyau wedi'u berwi wedi eu rhag-becynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol mewn caffis.

**Cwestiwn 44 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch â'n cynnig i labelu unrhyw gynnyrch porc, cyw iâr ac wy heb ei brosesu neu wedi'i fân-brosesu sydd o fewn sgôp, p'un ai wedi eu pecynnu ar gais y defnyddiwr, wedi eu rhag-becynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol neu rag-becynnu mewn ffatri cyn eu gwerthu?**

[Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 44 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 45 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch â’n cynigion y dylid labelu pob porc, cyw iâr ac wy heb ei brosesu ac wedi’i fân-brosesu, sydd o fewn sgôp, p’un ai yw’n cael ei werthu mewn siop neu archfarchnad, bwyty neu gaffi, neu gan fanwerthwr ar-lein?**

[Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 45 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd]

**Sgôp: y sector gwasanaeth bwyd**

Mae nifer o gadwyni bwytai ac arlwywyr torfol eisoes yn prynu cynhyrchion o ffermydd ansawdd sicr, neu i safonau lles uwch, gan hysbysebu’r wybodaeth ar eu gwefannau neu fwydlenni. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae llai o wybodaeth am ddull cynhyrchu ar gael i ddefnyddwyr am gynhyrchion a werthir drwy’r sector gwasanaeth bwyd (fel caffis a bwytai) na thrwy’r sector manwerthu. Mae bwyd a diod a fwyteir / yfir drwy’r sector gwasanaeth bwyd yn cyfrif am gyfran sylweddol o’r holl fwyd a diod a fwyteir / yfir yn y DU.

Ynghyd â chynhyrchion a brosesir, mae cynhyrchion lles is yn fwy tebygol o gyrraedd y sector gwasanaeth bwyd ac mae’n anoddach darparu gwybodaeth glir ar ei gyfer oherwydd bod y bwydydd yn cynnwys amryw o gynhwysion. Hefyd mae’r cadwyni cyflenwi fel arfer yn fwy cymhleth, ‘afloyw’ a darniog nag yn y sector manwerthu ac mae penderfyniadau ar ble i brynu hefyd yn newid yn aml.

O ystyried hyn, fe wnaethom holi barn yn ein galwad am dystiolaeth ar ffyrdd eraill o ddarparu gwybodaeth am les yn y sector gwasanaeth bwyd. Dywedodd rai mai labeli lles gorfodol ar y fwydlen a allai fod y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cae chwarae gwastad a rhoi hwb i’r galw gan ddefnyddwyr. Fodd bynnag soniodd lawer am gymhlethdod logistaidd gwneud hyn gan gynnig ffyrdd eraill fel gwella labelu gwlad tarddiad a gorfodi busnesau i ddatgelu eu safonau lles ar eu gwefannau.

**Ar sail hyn, mae ffocws ein cynigion labelu dull cynhyrchu cychwynnol ar gynhyrchion a werthir drwy’r sector manwerthu’n unig, ac ni fwriadwn gyflwyno gofynion labelu gorfodol i’r sector gwasanaeth bwyd.**

**Cwestiwn 46 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch â’n cynnig y dylid labelu cynhyrchion a werthir drwy’r sector manwerthu’n unig?**

[Cytuno’n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 46 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd]

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymgynghori yn 2022 ar gynigion i ddiweddaru polisi bwyd ac arlwyo'r sector cyhoeddus, gan gynnwys Safonau Prynu'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau bwyd ac arlwyo (GBSF). Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn am gynigion i hyrwyddo bwyd cynaliadwy ac iachach yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys safonau lles anifeiliaid ac amgylcheddol uwch. Rydym yn adolygu'r ymatebion a dderbyniwyd a byddwn yn ystyried sut orau i ddiweddaru'r safonau presennol ar gyfer bwyd ac arlwyo yn y sector cyhoeddus.

# Diffinio safonau cynhyrchu

Mae angen i labeli gorfodol gael eu hategu gan gyfres o safonau cytunedig sy'n gwahaniaethu rhwng mathau o gynhyrchu ar gyfer pob rhywogaeth. Mae hyn yn cynnwys ar ba fetrigau y mae'r safonau'n seiliedig, i ba gyfnod ym mywyd anifail y maen nhw'n berthnasol, faint o 'lefelau' a osodir, a sut y diffinnir y lefelau hyn.

Wrth osod safonau, mae'n bwysig ystyried: y dystiolaeth wyddonol; y gwahanol systemau cynhyrchu da byw a sut y gellir cwrdd yn ymarferol â'r safonau hyn ar y fferm; y goblygiadau i'r gadwyn gyflenwi, er enghraifft gofynion gwahanu; sut y mae defnyddwyr yn deall y safonau a beth sydd bwysicaf i'r defnyddiwr. Lle y maen nhw'n bodoli, rydym hefyd wedi ystyried safonau a thystiolaeth ryngwladol berthnasol.

## Safonau: ar ba fetrigau y mae'r safonau'n seiliedig

Mae'r safonau arfaethedig yn diffinio gwahanol elfennau o'r system gynhyrchu ac amgylchedd a brofir gan anifeiliaid ar y fferm. Mae'n bwysig sicrhau bod y safonau hyn yn cynnwys agweddau sy'n bwysig i les anifeiliaid ac sy'n ddealladwy i ddefnyddwyr.

**Cynigiwn fod y safonau'n seiliedig ar fewnbynnau.** Mae'r mewnbynnau hyn yn disgrifio beth y dylid ei roi i anifeiliaid o ran adnoddau fel lle ac amgylchedd cyfoethog, yn ogystal ag agweddau eraill ar systemau hwsmonaeth fel y triniaethau a roddir i anifeiliaid, a'r bridiau a ddefnyddir. Opsiwn arall fyddai gwneud y safonau'n seiliedig ar ganlyniadau lles, sy'n fesurau corfforol neu ymddygiad a fyddai'n rhoi syniad o brofiad byw'r anifail. Er enghraifft, pa mor gyffredin yw cloffni, cyfraddau marwolaeth neu amser yn dangos ymddygiad naturiol fel clwydo

Roedd llawer o'r ymatebion i'n galwad am dystiolaeth o blaid safonau seiliedig ar fewnbynnau, yn enwedig rhai'n ymwneud â dulliau cynhyrchu. Disgrifiwyd bod mewnbynnau'n symlach a mwy gwrthrychol i'w mesur na chanlyniadau lles. Derbyniwn y gall lles anifeiliaid amrywio o fewn yr un system gynhyrchu yn ôl ffactorau rheoli ac

amgylcheddol eraill, ac mae ein safonau drafft felly'n bennaf seiliedig ar y potensial sydd gan bob system gynhyrchu i ddarparu lles da.

Er bod canlyniadau lles yn rhoi darlun mwy cywir o les anifail unigol, ar hyn o bryd nid yw'n ymarferol cynnwys metrigau canlyniadau yn y safonau. Mae'r canlyniadau hyn yn anodd eu mesur ac yn gallu bod yn anymarferol i'w hasesu mewn nifer fawr o anifeiliaid. Gallai cymhlethdod sylweddol i'r gadwyn gyflenwi gael ei achosi pe bai anifeiliaid unigol neu fatshys o anifeiliaid yn cael eu hasesu i fod yn cwrdd â gwahanol safonau a byddai goblygiadau cost a baich cydymffurfio ychwanegol. Fe wnaethom geisio casglu gwybodaeth am hyn yn ein galwad am dystiolaeth ond nid oeddem yn ymwybodol o unrhyw gynllun labelu arall yn y byd sy'n gwneud hyn.

Byddem yn ceisio adolygu'r metrigau a'r safonau'n rheolaidd a pharhau i ystyried y posibilrwydd o ymgorffori canlyniadau yn y safonau yn y dyfodol, ar ôl ymgynghori ymhellach.

Er y teimlwn na fyddai ymgorffori metrigau canlyniadau unigol yn yr haenau labelu'n ymarferol ar hyn o bryd, derbyniwn fod gwerth mewn asesu canlyniadau lles a bod ganddynt fanteision lles posib ar lefel fferm.

**Fel cam interim felly, cynigiwn fod yn rhaid gwneud asesiadau o ganlyniadau lles ar ffermydd sy'n cyflenwi porc, cyw iâr neu wy ar gyfer cynhyrchion a labelir gyda'r haen ganol (e.e. 3) ac uwch:**

- dylai'r asesiad canlyniadau gael ei wneud gan asesydd trydydd parti cymwys a gallai gael ei wneud fel rhan o aelodaeth ffermwr o gynllun gwarant fferm cydnabyddedig
- rhaid i'r ffermydd hyn hefyd fod â phroses yn ei lle i fonitro eu canlyniadau lles, cynllun gweithredu i ymateb i ganlyniadau gwael, ac asesiad o ba mor effeithiol yw'r camau a gymerwyd i ddatrys problemau lles
- ni fyddai canlyniad yr asesiad canlyniadau'n effeithio ar yr haen a fyddai'n cael ei ddyrannu i'r cynnyrch – fodd bynnag, byddai'n ofynnol gwneud yr asesiad i fod yn gymwys am yr haen ganol (e.e. 3) ac uwch.

Mae AssureWel a Welfare Quality yn enghreifftiau o brotocolau i'w dilyn wrth wneud asesiad o ganlyniadau lles.

Yn ail hanner 2022, buom yn gweithio gyda grŵp o'r Pwyllgor Lles Anifeiliaid i adnabod metrigau blaenoriaeth ar gyfer pob sector a datblygu cyfres o safonau a allai ategu'r label arfaethedig. Rydym wedi cyfyngu nifer y metrigau i rai sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymarferol i'w darparu. Byddwn hefyd yn gweithio â'r diwydiant i ystyried, os gweithredir y cynigion, sut y dylai'r safonau ryngweithio â llacio'r rheolau os bydd clefydau'n digwydd.

Isod cyflwynir y metrigau blaenoriaeth a gynigir ar gyfer pob sector:

| Moch | Metrigau blaenoriaeth arfaethedig |
|---|---|
| | Dwysedd stocio |
| | Cyfoethogi |
| | Mynediad i'r awyr agored |
| | Asesu a rheoli canlyniadau lles |
| | Adeiladau pesgi |
| | System perchyll |
| | Tocio cynffonnau (a thriniaethau eraill) |

| Ieir dodwy | Metrigau blaenoriaeth arfaethedig |
|---|---|
| | Dwysedd stocio |
| | Cyfoethogi |
| | Mynediad i'r awyr agored |
| | Asesu a rheoli canlyniadau lles |
| | Tocio pigau |
| | Manyleb y maestir |

| Ieir cig | Metrigau blaenoriaeth arfaethedig |
|---|---|
| | Dwysedd stocio |
| | Cyfoethogi |
| | Mynediad i'r awyr agored |
| | Asesu a rheoli canlyniadau lles |
| | Cyfradd dwf y brîd |
| | Manyleb y maestir |
| | Teneuo |

**Cwestiwn 47 a) I ba raddau y cytunwch y dylai safonau fod yn seiliedig ar fewnbynnau sy'n bwysig i les, o ystyried y diffyg enghreifftiau o labeli ar sail canlyniadau lles a'r cymhlethdod ychwanegol i'r gadwyn gyflenwi y byddai hyn yn ei achosi?**

[Cytuno'n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 47 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

*[blwch testun rhydd]*

**Cwestiwn 48 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch y dylai asesu canlyniadau lles fod yn ofynnol ar gyfer cynhyrchion label haen 3 ac uwch?**

*[Cytuno'n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Ddim yn gwybod]*

**Cwestiwn 48 b) Eglurwch eich ateb gan nodi unrhyw ystyriaethau penodol yr hoffech eu rhannu, er enghraifft o ran pa mor ymarferol yw'r gofyniad hwn. Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol sydd ar gael.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 49 a) A gredwch fod unrhyw fetrigau ychwanegol <u>y dylid</u> eu cynnwys yn y safonau drafft (a nodir yn y tablau uchod)?**

**Ar gyfer ieir dodwy** [Oes / Nag oes / Ddim yn gwybod]

**Ar gyfer ieir cig** [Oes / Nag oes / Ddim yn gwybod]

**Ar gyfer moch** [Oes / Nag oes / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 49 b) Os oes, rhestrwch y metrig(au) hyn gan roi eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 50 a) A gredwch fod unrhyw fetrigau arfaethedig <u>na ddylid</u> eu cynnwys yn y safonau drafft?**

**Ar gyfer ieir dodwy** [Oes / Nag oes / Ddim yn gwybod]

**Ar gyfer ieir cig** [Oes / Nag oes / Ddim yn gwybod]

**Ar gyfer moch** [Oes / Nag oes / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 50 b) Os oes, rhestrwch y metrig(au) hyn gan roi eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd]

## Safonau: gosod safonau haenog

Yn yr alwad am dystiolaeth, roeddem yn gofyn sut y dylid dangos gwybodaeth am les ar y label. Fe wnaethom holi barn am ystod o fformatau label, gan gynnwys: logos ardystiad yn nodi bod cynnyrch yn cwrdd ag un safon benodol (fel cynllun gwarant), labeli disgrifiadol gyda thestun ar sut y cafodd yr anifail ei fagu, neu labeli haenog yn nodi lefelau lles anifeiliaid cymharol. Roedd y rhan fwyaf wnaeth ymateb o blaid cael nifer o haenau gan gyfeirio at ymchwil defnyddwyr fel tystiolaeth mai hyn oedd orau gan ddefnyddwyr. Awgrymwyd fod haenau'n fwy hyblyg ac y gellid wedyn cynnwys ystod ehangach o systemau ffermio ac amrediad ehangach o gynhyrchion i ddewis ohonynt. Mae haenau hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i fanwerthwyr a busnesau bwyd eraill gyda phenderfynu pa haen sy'n cyd-fynd orau â'u polisïau prynu, strategaeth farchnata a brand y cwmni.

***Cynigiwn system bum haen (e.e. rhifau, llythrennau, sêr neu drefn arall) sy'n gwahaniaethu rhwng cynhyrchion sy'n disgyn o dan, yn cwrdd ac yn rhagori ar reoliadau lles sylfaenol perthnasol y DU, lle:***

- ***Ni fyddai gan yr haen isaf unrhyw ofynion penodol ar ei chyfer. Byddai'n nodi cynhyrchion heb eu dilysu fel rhai sy'n cwrdd â rheoliadau lles sylfaenol y DU ar gyfer metrigau'r label.***
- ***Byddai'r haen ail isaf yn nodi cynhyrchion sy'n cwrdd â rheoliadau lles sylfaenol y DU ar gyfer metrigau'r label (a ddiffinnir yn Atodiad A).***
- ***Byddai'r tair haen nesaf yn nodi cynhyrchion sy'n gynyddol ragori ar reoliadau lles sylfaenol y DU.***
- ***Byddai angen cwrdd â holl ofynion pob haen er mwyn i gynnyrch gael ei labelu i fod yn cwrdd â'r safon honno, gyda phob haen yn adeiladu ar yr haen o dani.***

**Cwestiwn 51 a) I ba raddau y cytunwch â'r system haenau a gynigiwn uchod?**

[Cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod / dim ateb]

**Cwestiwn 51 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

Dylid darllen *Atodiad B* am gyfres o safonau drafft yn nodi'r gofynion posib y byddai angen eu cwrdd ar gyfer pob haen. Yn y rhan nesaf ar fformat labeli a therminoleg, byddem yn croesawu eich barn am sut y dylid cyfeirio at bob un o'r haenau drafft hyn ar y label.

**Cwestiwn 52. Os hoffech awgrymu newidiadau i'r lefelau y byddai'r safonau'n cael eu gosod arnynt yn yr haenau drafft (*Atodiad B*), gwnewch hynny ar bob cyfrif.**

**Ar gyfer ieir dodwy** *[testun rhydd]*

**Ar gyfer ieir cig** *[testun rhydd]*

**Ar gyfer moch** *[testun rhydd]*

## Safonau: cyfnod bywyd y mae'r safonau'n berthnasol iddo

Er bod anifeiliaid fferm yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau ar y fferm, mae'r amser yn cael eu cludo ac yn y lladd-dy hefyd yn codi ystyriaethau lles sylweddol. Yn yr alwad am dystiolaeth roeddem yn gofyn beth y byddai angen i ni ei ystyried pe byddem yn datblygu cyfres o safonau ar gyfer bywyd cyfan yr anifail. Atebwyd y byddai hyn yn anoddach i rai rhywogaethau nag eraill gan gyfeirio at nifer o ffactorau fel: faint o amser y mae'r anifeiliaid yn ei dreulio â'u mamau, pa mor aml y mae anifeiliaid yn cael eu symud, gofynion olrhain, a'r angen i gynnwys y stoc ddodwy / fagu / y fam.

***Cynigiwn fod y safonau'n berthnasol i ddechrau i'r cyfnod amser y mae'r anifail yn ei dreulio ar y fferm, ac mewn rhai achosion eu rhieni hefyd, os yw'n ymarferol monitro a gorfodi hyn.*** Cyflwynir y safonau drafft yn *Atodiad B.*

Nid yw ein cynigion yn berthnasol i les wrth gludo na mewn lladd-dŷ. Mae'r ddeddfwriaeth ar les mewn lladd-dai'n cynnwys gofynion llym yn barod i ddiogelu lles anifeiliaid sy'n cael eu lladd ac mae Milfeddygon Swyddogol yn bresennol ym mhob lladd-dŷ cymeradwy i fonitro a gorfodi gofynion lles anifeiliaid. Mae'n ofynnol yn barod i gig sy'n cael ei fewnforio i'r DU fod wedi cael ei gynhyrchu i'n safonau hylendid a ffyto-hylendid ni (rheolau ar ddiogelwch bwyd a safonau ar iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion) a'u lladd yn unol â safonau lles anifeiliaid cyfwerth â'n safonau ni.

**Ar gyfer ieir dodwy,** mae'r safonau drafft yn berthnasol i fywyd yr iâr o'r amser y mae'n mynd i mewn i'r uned ieir dodwy (yn 16 wythnos oed fel arfer) tan y bydd yn gadael ar ddiwedd y cylch cynhyrchu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn holi barn am a ddylid ymestyn hyn i gynnwys y cyfnod bywyd pan fydd yr ieir yn cael eu magu fel cywion (fel arfer o gywion diwrnod oed tan 16 wythnos oed) ac yn awyddus i ddeall sut y gallai hyn weithio a'r effeithiau posib.

**Ar gyfer ieir cig,** mae'r safonau drafft yn ymwneud â bywyd yr aderyn o'r amser y mae'n cyrraedd y cwt magu cywion (fel arfer yn ddiwrnod oed) tan y bydd yn gadael y fferm i gael ei ladd.

**Ar gyfer moch,** mae'r safonau drafft yn ymwneud â'r cyfnodau magu a phesgi, ar gyfer hychod magu a pherchyll. Mae'n berthnasol i'r holl amser ar y fferm ond nid wrth gael eu cludo rhwng unedau os symudir y moch wrth dyfu. Gwyddom fod rhai moch yn symud rhwng systemau, er enghraifft gallai moch fod wedi cael eu geni yn yr awyr agored a threulio rhan o'u bywyd yn yr awyr agored, cyn symud i system dan do. Mae'r safonau drafft yn caniatáu ar gyfer hyn drwy nodi'r amser lleiaf y dylai mochyn ei dreulio yn yr awyr agored er mwyn cwrdd â'r ddwy haen uchaf.

**Cwestiwn 53 a) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig uchod yn nodi i ba gyfnod bywyd y mae'r safonau drafft yn berthnasol ar gyfer pob sector?**

**Ar gyfer ieir dodwy** *[ydy, mae'r amser yn iawn; na, mae'n rhy hir; na, mae'n rhy fyr; ddim yn gwybod]*

**Ar gyfer ieir cig** *[ydy, mae'r amser yn iawn; na, mae'n rhy hir; na, mae'n rhy fyr; ddim yn gwybod]*

**Ar gyfer moch** *[ydy, mae'r amser yn iawn; na, mae'n rhy hir; na, mae'n rhy fyr; ddim yn gwybod]*

**Cwestiwn 53 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 54. Rydym yn ystyried ymestyn y cyfnod bywyd ar gyfer ieir dodwy i gynnwys y cyfnod magu cywion. A oes gennych farn am sut y gallai hyn ddigwydd yn ymarferol ac am effeithiau gwneud hyn?**

*[testun rhydd]*

## Fformat a therminoleg labeli

Mae fformat, dyluniad a therminoleg labeli'n hollbwysig i sicrhau y gall defnyddwyr ddeall yn glir sut y cynhyrchwyd eu bwyd a gwneud dewisiadau gwybodus. Yn yr alwad am dystiolaeth, gofynnwyd am y gwahanol fformatau labeli ar gyfer dangos gwybodaeth, yn cynnwys haenau, termau disgrifiadol, a logos ardystiad. Dywedodd ymatebwyr ba mor bwysig oedd cadw'r wybodaeth i ddefnyddwyr yn syml gyda thermau cyson a chlir, gan osgoi gor-eirio pecynnu bwyd a symleiddio labeli 'ar-baced' lle bo'n bosib. Roedd llawer o blaid cynnwys haenau a defnyddio lliwiau a lluniau i wneud y label mor amlwg glir â phosib i ddefnyddwyr. Nod y diwygiadau a gynigiwn yw gwneud hyn gyda chyfres glir o dermau safonol gan wneud i ffwrdd â thermau marchnata di-reoledig anghyson. ***Hoffem felly holi eich barn am y nodweddion label posib canlynol:***

- **(a) haen y cynnyrch**
- **(b) lliw'n cyfateb i bob haen**
- **(c) cynnwys disgrifiad(au)**
- **(d) llun yn dangos y dull cynhyrchu**
- **(e) lle i gynnwys (yn wirfoddol) logo cynllun gwarant**

Mae ystod o opsiynau ar gyfer pob nodwedd a gofynnwn am eich barn am y rhain. Deallwn y gallai fod gan lawer sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn, e.e. manwerthwyr, grwpiau defnyddwyr a mudiadau lles, ymchwil defnyddwyr helaeth yn barod i ddyluniad labeli. Mae croeso i chi gyflwyno'r data hwn fel y gallwn ei ystyried ac adeiladu arno i ddiwygio mwy ar ddyluniad labeli.

<u>Ar (a) haen y cynnyrch:</u>

**Cwestiwn 55 a) Pa un o'r canlynol fyddai fwyaf effeithiol ar gyfer dangos haen y cynnyrch ar y label? Dewiswch un o'r canlynol:**

*[Rhifau / Llythrennau / Sêr / Opsiwn arall / Dw i ddim eisiau i'r haen gael ei dangos ar fformat y label / Ddim yn gwybod]*

**Cwestiwn 55 b) Eglurwch pam eich bod yn ffafrio'r opsiwn hwn gan rannu unrhyw fanylion ychwanegol am eich dewis (e.e. yr union rifau i'w defnyddio ar gyfer pob haen) ac unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol.**

*[testun rhydd]*

<u>Ar (b) lliw'n cyfateb i bob haen:</u>

**Cwestiwn 56 a) Ydych chi'n teimlo y dylai'r label gynnwys lliwiau'n cyfateb i bob haen?**

*[Dylai, mae'n bwysig cynnwys lliwiau / Na, nid yw'n bwysig cynnwys lliwiau / Ddim yn gwybod]*

**Cwestiwn 56 b) Os dylai, awgrymwch liwiau ar gyfer pob haen.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 56 c) A oes unrhyw effeithiau o gynnwys lliwiau sydd angen eu hystyried?**

*[testun rhydd]*

<u>Ar (c) cynnwys disgrifiad(au):</u>

Yn yr alwad am dystiolaeth, roeddem yn gofyn a ddylai'r label gynnwys terminoleg yn disgrifio'r dull cynhyrchu (e.e. cynnyrch maes) a / neu lefel y lles (e.e. da, uchel). Roedd y farn o'r alwad am dystiolaeth yn amhendant. Holwn eich barn nawr am yr union derminoleg i ddisgrifio pob haen, gan gynnwys unrhyw ymchwil defnyddiwr y gellir ei rhannu. Deallwn y gallai'r ffactorau canlynol fod yn bwysig i'w hystyried:

- natur gymharol y derminoleg rhwng rhywogaethau
- lefel ddealltwriaeth defnyddwyr o'r termau presennol
- pwysigrwydd cadw'r derminoleg yn debyg i'r hyn a ddefnyddir heddiw
- dealltwriaeth defnyddwyr o beth yw lles da a sut y mae hynny'n trosglwyddo i wahanol systemau cynhyrchu
- y cydbwysedd rhwng bod yn hollol dryloyw a dealltwriaeth glir, er mwyn gwneud dewisiadau haws
- termau sy'n adlewyrchu arferion ffermio'n deg a helpu i gyfathrebu safonau lles uchel mewn ffordd bositif
- gallu diweddaru'r safonau ategol heb fod angen diweddaru'r derminoleg ar labeli, er enghraifft os symudwn at system gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau lles.

Byddai'n bwysig dewis terminoleg fel y gallai cynhyrchion o Ogledd Iwerddon barhau i gydymffurfio â chyfreithiau bwyd yr UE, fel safonau marchnata ar gyfer wyau a chig dofednod, pe bai'r diwygiadau'n cael eu gweithredu.

Rhoddir rhai enghreifftiau o dermau posib yn y tabl isod sy'n seiliedig ar y safonau drafft yn Atodiad B.

| | Term lefel lles | Term dull cynhyrchu | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Porc, cyw iâr ac wyau** | **Porc, cyw iâr ac wyau** | **NEU** | **Porc** | **Cyw iâr** | **Wyau** |
| **5** | Di-gategori | Ansafonol DU | | Ansafonol DU | Ansafonol DU | Ansafonol DU |
| **4** | Safonol | Dan do | | Dan do | Dan do | Mewn cewyll NEU ysgubor |
| **3** | Gwell | Dan do amgenach | | Dan do amgenach | Dan do amgenach | Ysgubor |
| **2** | Uchel | Rhannol tu allan | | Magu tu allan | Maestir | Maestir |
| **1** | Uchaf | Tu allan amgenach | | Maestir | Maestir amgenach | Maestir amgenach |

**Cwestiwn 57 a) Ydych chi’n teimlo y dylai’r label gynnwys terminoleg yn disgrifio’r dull cynhyrchu a lefel y lles?**

[Dylai, y ddau / Na, disgrifiad dull cynhyrchu’n unig / Na, disgrifiad lefel lles yn unig / Na, ni ddylai’r label gynnwys termau disgrifiad / Arall / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 57 b) Eglurwch eich ateb neu gallwch gynnig opsiynau eraill.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 58. Rhannwch unrhyw sylwadau am y derminoleg label a ddewiswch ar sail y safonau drafft yn Atodiad B.** Gallai hyn gynnwys termau unigol y teimlwch y dylid neu na ddylid eu defnyddio. Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol sydd ar gael.

**Term dull cynhyrchu** *[testun rhydd]*

**Term lefel lles** *[testun rhydd]*

**Cwestiwn 59. Os ydych wedi awgrymu safonau cynhyrchu eraill wrth ateb y cwestiynau blaenorol, awgrymwch derminoleg label i gyd-fynd â'ch cynigion os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

Ar (d) llun yn dangos y dull cynhyrchu:

**Cwestiwn 60 a) I ba raddau ydych chi o blaid cynnwys llun yn dangos y dull cynhyrchu?**

[Cefnogi'n gryf / Cefnogi / Niwtral / Gwrthwynebu / Gwrthwynebu'n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 60 b) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

Ar (e) lle i gynnwys (yn wirfoddol) logo cynllun gwarant:

Yn yr alwad am dystiolaeth, roedd yr ymatebion yn gyson gydnabod y rôl bwysig sydd gan gynlluniau gwarant i'w chwarae mewn rhoi hyder i ddefnyddwyr yn y bwydydd a brynir ganddynt, er bod tystiolaeth o ddryswch oherwydd nifer y labeli, termau a chael trafferth eu cymharu. Rydym yn cydnabod gwerth y cynlluniau gwarant fferm ac mae ein cynigion yn awyddus i ategu ac adeiladu ar hyn. Rydym felly'n ystyried a ddylai'r label lles gynnwys lle i roi logo cynllun gwarant a gwybodaeth i ddefnyddwyr a yw cynnyrch yn un gwarant fferm neu beidio. Mae llawer o safonau'r cynlluniau gwarant presennol yn mynd yn bellach na'r safonau drafft *(Atodiad B)* a'u logos yn cyfleu hyn. Mae gan rai, ar gyfer lles anifeiliaid yn bennaf, safonau lles mwy manwl; mae gan eraill safonau llawer ehangach, er enghraifft ar ddiogelwch ac ansawdd bwyd neu'r amgylchedd, gan roi hyder i ddefnyddwyr ar draws ystod o wahanol ffactorau.

**Cwestiwn 61 a) Ydych chi'n teimlo y dylai'r label gynnwys lle ar gyfer logo cynllun gwarant?**

[Dylai – dylai'r logo gwarant fod yn rhan o'r label lles / Efallai – ond byddai'n dibynnu ar y cynllun gwarant / Na – dylai'r logo gwarant fod ar wahân i'r label lles / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 61 b) Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig bod y label yn dweud wrth ddefnyddwyr a yw'r bwyd yn dod o fferm cynllun gwarant neu beidio?**

[Ydy – mae'n bwysig i'r label roi'r wybodaeth yma / Na – nid yw'r wybodaeth yma'n berthnasol i label lles / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 61 c) Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

Isod rhoddir label enghreifftiol i ddangos beth allai label bosib edrych fel, gan gynnwys yr holl nodweddion a ddisgrifir uchod.




**Cwestiwn 62. Rhannwch unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud am y label enghreifftiol.**

*[testun rhydd]*

<u>Opsiynau ar gyfer rhoi mwy o wybodaeth ar-lein:</u>

Dywedodd y rhai wnaeth ymateb i'r alwad am dystiolaeth y dylai'r termau ar y label fod yn syml a dealladwy i bawb ond y gallai rhai defnyddwyr fod eisiau chwilio am fwy o wybodaeth ar-lein. I hwyluso tryloywder i ddefnyddwyr, gobeithiwn gyhoeddi mwy o fanylion am y safonau sy'n ategu pob haen label ar gov.uk. Gallai'r wybodaeth yma ailadrodd ac ehangu ar y wybodaeth ar y label, ond ni fyddai yn lle'r wybodaeth ar y label. Rydym yn ystyried opsiynau ar gynnwys dolen i wybodaeth bellach ar y label neu beidio – er enghraifft drwy gôd QR neu gyfeiriad gwefan. Gallai hyn fod i dudalen gov.uk yn disgrifio'r safonau cynhyrchu'n llawn, neu i wefan y busnes bwyd, lle y byddai gan y busnes opsiwn o gynnwys gwybodaeth ychwanegol am eu safonau penodol.

**Cwestiwn 63 a) Ydych chi o blaid cynnwys dolen i wybodaeth bellach ar y label?**

*[Ydw / Na / Ddim yn gwybod / dim barn]*

**Cwestiwn 63 b) Rhowch fanylion am sut y dylid gwneud hyn ac unrhyw effaith gwneud hyn.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 63 c) Awgrymwch unrhyw opsiynau eraill ar gyfer cyfeirio defnyddwyr ymlaen at wybodaeth ar-lein, fel ei gwneud yn ofynnol cael arwydd yn y siop i gyd-fynd â'r cynnyrch.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 64. Rhannwch unrhyw sylwadau eraill am fformat a therminoleg labeli.**

*[testun rhydd]*

## Monitro a gorfodi

Mae cael system fonitro a gorfodaeth gadarn yn hanfodol i sicrhau bod gan ddefnyddwyr hyder yn y label. Byddai angen hyn ar gyfer bwydydd 'mewn sgôp' yn cynnwys porc, cyw iâr ac wy a gynhyrchir yn, neu wedi'u mewnforio i'r DU. Soniodd lawer wnaeth ymateb i'r alwad am dystiolaeth am y baich pellach o fonitro a gorfodi ychwanegol gan awgrymu defnyddio'r cynlluniau gwarant ac achredu presennol lle'r oedd hyn yn bosib.

Rydym eisiau holi eich barn am gynnig sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am labelu'n gywir ar y Gweithredwr Busnes Bwyd (FBO) sy'n gosod y label. Hoffem hefyd holi eich barn ynghylch a oes hefyd angen i'r llywodraeth ddarparu'r ardystiad angenrheidiol i ganiatáu i FBO osod label.

**Cynigiwn y dylai'r cyfrifoldeb fod ar y gweithredwr FBO am sicrhau bod y labeli a osodir ar eu cynhyrchion yn gywir.** O dan enwau'r busnesau hyn y mae bwydydd yn cael eu marchnata neu werthu. Fel arfer, cynhyrchion 'hunan-frand' archfarchnad fyddai'r rhain, neu weithgynhyrchydd bwydydd brand. Byddai angen i'r FBO fod â systemau olrhain addas yn eu lle i sicrhau y gallai ddangos tystiolaeth o unrhyw honiadau lles yn ôl drwy eu cadwyn gyflenwi.

Fel y gallai unrhyw haen uwchben yr haen isaf gael ei rhoi ar gynhyrchion mewn sgôp, byddai angen i'r FBO ddangos tystiolaeth ddogfennol bod y cynnyrch wedi'i gynhyrchu mewn ffordd sy'n gyson â'r safonau sy'n gysylltiedig â'r haen honno. Os na allai'r FBO ddangos bod y cynnyrch wedi'i gynhyrchu i safon un o'r haenau hynny, byddai angen rhoi label haen isaf i'r cynnyrch hwnnw i ddangos na chafodd ei gynhyrchu i unrhyw safonau cynhyrchu penodol.

Byddai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn dynodi awdurdod gorfodaeth gyda'r pwerau i:

- monitro ac ymchwilio i sicrhau cydymffurfio â'r haenau honedig, er enghraifft drwy wirio y gosodwyd labeli'n gywir ar gynhyrchion ac y gallai cynhyrchion gyda label haen benodol ddangos eu tarddiad o anifeiliaid a fagwyd o dan y safonau hynny.
- delio'n effeithiol ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio, drwy erlyn neu gyflwyno sancsiynau sifil.

### Canllawiau'r llywodraeth i gefnogi gweithredwyr FBO

Byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi'n egluro sut y gallai gweithredwyr FBO gwrdd â'r cyfrifoldeb o osod labeli cywir. Byddai hyn yn cynnwys yr opsiwn i brynu gan gynhyrchwyr sy'n aelodau o gynlluniau gwarant fferm sy'n cwrdd â chyfres leiaf ofynnol o feini prawf,

gan gynnwys: achrediad ISO 17065 annibynnol, o leiaf un archwiliad fferm y flwyddyn, a gofynion o ran cymhwysedd yr aseswyr.

I gefnogi hyn byddai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cadw a diweddaru cofrestr hwylus o gynlluniau gwarant fferm a'r haen(au) y byddai eu cynllun yn berthnasol iddynt. Byddai'r cynlluniau, p'un ai'n gweithredu yn y DU neu dramor, yn gallu cyflwyno tystiolaeth ddogfennol i gael eu cynnwys ar y gofrestru. Cynigiwn y byddai angen i ddogfennau gael eu hailgyflwyno'n rheolaidd er mwyn aros ar y gofrestr a holwn eich barn isod am ba mor aml y dylai fod angen gwneud hyn.

Ar gyfer ffermwyr cynllun gwarant, gellid felly defnyddio eu harchwiliadau fferm fel tystiolaeth eu bod yn cwrdd â'r safonau sy'n angenrheidiol ar gyfer y tair haen uchaf. Mae tua 95% o foch ac ieir cig a 90% o ieir dodwy yn cael eu magu ar ffermydd yn y DU sy'n aelodau o gynlluniau gwarant fferm yn barod.

Gallai gweithredwyr FBO hefyd gwrdd â'u cyfrifoldeb i labelu'n gywir drwy ddangos bod tarddiad cynnyrch yn dod o wlad gyda deddfwriaeth sylfaenol sy'n cwrdd â safonau haen benodol. Er enghraifft, oherwydd bod safonau sylfaenol cyfreithiol y DU yn cwrdd â safonau'r haen, byddai dangos tarddiad y cynnyrch o'r DU a'i fod yn cwrdd â'r gofynion hynny'n ddigon o dystiolaeth i ganiatáu rhoi'r label haen honno arno. Fel rhan o ganllawiau i'w cyhoeddi, rydym yn ystyried cynnwys cofrestr lefel gwlad yn rhestru'r gwledydd y mae eu safonau sylfaenol cyfreithiol lleiaf ofynnol yn cwrdd â safonau haen benodol. Fel gyda'r cynlluniau gwarant uchod, i gael eu cynnwys ar y gofrestr byddai angen i wledydd anfon tystiolaeth at Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

**Cwestiwn 65 a) I ba raddau ydych chi o blaid neu yn erbyn y system arfaethedig o wneud Gweithredwyr Busnesau Bwyd yn gyfrifol am sicrhau bod y labeli a osodir ar eu cynhyrchion bwyd yn gywir?**

*[Cefnogi'n gryf / Cefnogi / Niwtral / Gwrthwynebu / Gwrthwynebu'n gryf]*

**Cwestiwn 65 b) Eglurwch eich ateb gan rannu unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol os gwelwch yn dda.** *[testun rhydd]*

**Cwestiwn 66 a) I ba raddau ydych chi o blaid neu yn erbyn y cynnig y gallai Gweithredwr Busnes Bwyd ddefnyddio aelodaeth o gynllun gwarant fferm i helpu i ddilysu safonau cynhyrchu ar gyfer ffermwyr y DU?**

*[Cefnogi'n gryf / Cefnogi / Niwtral / Gwrthwynebu / Gwrthwynebu'n gryf]*

**Cwestiwn 66 b) Eglurwch eich ateb gan rannu unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol os gwelwch yn dda.** *[testun rhydd]*

**Cwestiwn 67 a) I ba raddau ydych chi o blaid neu yn erbyn y cynnig i ddefnyddio canllawiau i gydnabod cyrff mewn gwledydd eraill i helpu i ddilysu labelu ar gyfer marchnad y DU?**

*[Cefnogi'n gryf / Cefnogi / Niwtral / Gwrthwynebu / Gwrthwynebu'n gryf / Ddim yn gwybod]*

**Cwestiwn 67 b) Eglurwch eich ateb gan rannu unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 68. Rhestrwch unrhyw gyrff neu gynlluniau gwarant tramor a ystyriwch i fod cyfwerth ag un neu fwy o'r haenau drafft, a ddisgrifir yn Atodiad B.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 69 a) I ba raddau ydych chi o blaid neu yn erbyn cynnig proses o gynnwys cydnabyddiaeth ar lefel gwlad yn y canllawiau pe bai safonau cyfreithiol lleiaf ofynnol y wlad yn cwrdd â safonau haen benodol?**

*[Cefnogi'n gryf / Cefnogi / Niwtral / Gwrthwynebu / Gwrthwynebu'n gryf / Ddim yn gwybod]*

**Cwestiwn 69 b) Eglurwch eich ateb gan rannu unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol os gwelwch yn dda.** *[testun rhydd]*

**Cwestiwn 70. O dan y cynigion uchod, byddai angen i gynlluniau gwarant fferm gyflwyno tystiolaeth ddogfennol eu bod yn ardystio i un o'r safonau label, er mwyn cael eu cynnwys ar gofrestr y llywodraeth. Pa mor aml y credwch y dylid gorfod ail-gyflwyno'r dystiolaeth yma i sicrhau bod y gofrestr yn aros yn gywir a diweddar?** *[testun rhydd]*

**Cwestiwn 71 a) Mewn achosion lle na fyddai Gweithredwr Busnes Bwyd wedi cwrdd â'i gyfrifoldeb i labelu bwydydd yn gywir, cynigiwn sicrhau y gellid erlyn yn yr achosion mwyaf difrifol o ddiffyg cydymffurfio. I ba raddau ydych chi o blaid neu yn erbyn hyn?**

*[Cefnogi'n gryf / Cefnogi / Niwtral / Gwrthwynebu / Gwrthwynebu'n gryf]*

**Cwestiwn 71 b) Os ydych yn erbyn y cynnig i erlyn am ddiffyg cydymffurfio, beth arall fyddech chi'n ei awgrymu? Er enghraifft, sancsiynau sifil. Eglurwch eich ateb gan rannu unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol.** *[testun rhydd]*

**Cwestiwn 71 c) Pe bai sancsiynau troseddol neu sifil ar gael, beth ddylai'r gosb briodol fod yn eich barn chi? Eglurwch eich ateb gan rannu unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol.** *[testun rhydd]*

**Rôl y llywodraeth mewn ardystio safonau**

Hoffem hefyd holi eich barn ynghylch a oes hefyd angen i'r llywodraeth chwarae rôl mewn darparu'r ardystiad angenrheidiol i ganiatáu i FBO osod label. Gallai hyn gynnwys bod un o awdurdodau'r llywodraeth yn gwneud archwiliadau swyddogol ar y fferm.

**Cwestiwn 72 a) Ydych chi'n teimlo bod hefyd angen i archwiliadau gan y llywodraeth fod yn rhan o ardystio safonau labelu?**

*[Oes, mae angen archwiliadau gan y llywodraeth / Na, nid oes angen archwiliadau gan y llywodraeth / Ddim yn gwybod]*

**Cwestiwn 72 b) Eglurwch eich ateb gan rannu unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 72 c) Sut y gallai system o'r fath, lle y byddai'r llywodraeth yn rhan o ardystio safonau, weithio gyda bwydydd wedi eu mewnforio? Eglurwch eich ateb gan rannu unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o systemau y gwyddoch amdanynt.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 72 d) Rhannwch unrhyw effeithiau ychwanegol y teimlwch allai ddigwydd o fod angen i'r llywodraeth archwilio ac ardystio, ac unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol.**

*[testun rhydd]*

**Cwestiwn 73. Rhannwch unrhyw sylwadau pellach ar y cynigion monitro a gorfodi os gwelwch yn dda.**

*[testun rhydd]*

# Effeithiau ar fusnesau

## Sgôp daearyddol

Cynigiwn weithredu'r diwygiadau hyn ar draws y DU er mwyn cael dull cyson drwy holl wledydd y Deyrnas Unedig, gan nodi'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Neddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA) 2020, sef cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu. O dan UKIMA, gellir gwerthu nwyddau a werthir yn gyfreithlon mewn un rhan o'r DU mewn unrhyw ran arall, o dan yr egwyddor cyd-gydnabod ar gyfer nwyddau. Os dewiswn symud ymlaen â'r diwygiadau labelu yn y DU yn unig, gellid gwerthu nwyddau o Ogledd Iwerddon sy'n elwa o fynediad dilyffethair at y farchnad mewn rhannau eraill o'r DU hefyd heb y

gofynion arfaethedig ar gyfer labelu dull cynhyrchu. Gallai hyn olygu y gellid gwerthu rhai cynhyrchion porc, cyw iâr neu wyau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban heb orfod dangos label dull cynhyrchu a fyddai'n ofynnol yn y DU fel arall.

Gallai nwyddau'n symud o'r DU i Ogledd Iwerddon ddewis cydymffurfio â gofynion labelu dull cynhyrchu'r DU yn lle safonau marchnata'r UE pe byddent yn cael eu symud o dan Gynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon; ond byddai angen i unrhyw nwyddau o'r DU na fyddai'n cael eu symud o dan y cynllun hwn gydymffurfio â chyfraith fwyd berthnasol yr UE, fel safonau marchnata.

**Cwestiwn 74 a) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai ein gofynion labelu dull cynhyrchu arfaethedig fod yn berthnasol ar draws y DU? ?**

[Cytuno'n gryf / Cytuno / Na'n cytuno na'n anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 74 b) Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich barn.**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 75 a) Pa effeithiau gwahaniaethol fyddai'r cynigion hyn yn eu cael arnoch chi a / neu eich busnes pe bai gofynion labelu dull cynhyrchu gorfodol yn cael eu cyflwyno ar draws y DU yn unig, ac egwyddorion Deddf UKIM yn parhau i gael eu dilyn, fel bod nwyddau cymwys a symudir o Ogledd Iwerddon i'r DU, ac na fyddai'n cwrdd â'r gofynion labelu dull cynhyrchu, yn cael eu gwerthu ym marchnad y DU?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 75 b) Sut y byddai eich busnes yn delio â'r effeithiau hyn pe bai gofynion labelu dull cynhyrchu'n ofynnol ar draws y DU?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 76 a) Pa effeithiau gwahaniaethol fyddai'r cynigion hyn yn ei gael arnoch chi a / neu eich busnes pe bai gofynion labelu dull cynhyrchu gorfodol yn cael eu cyflwyno ar draws y DU yn unig, o ran nwyddau a fyddai'n cael eu symud o'r DU i Ogledd Iwerddon?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 76 b) Sut y byddai eich busnes yn delio â'r effeithiau hyn pe bai gofynion labelu dull cynhyrchu'n ofynnol ar draws y DU?**

[blwch testun rhydd]

## Busnesau bach a chanolig

Rydym eisiau cefnogi busnesau bach a chanolig i bontio at unrhyw labelu gorfodol ehangach. Rydym yn ystyried eithriadau posib i leihau'r effeithiau ond heb danseilio amcanion ein polisïau.

Gan ddilyn yr eithriadau yn y rheoliadau wedi eu cymathu ar roi gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, rydym yn ystyried eithrio o'r gofynion labelu gorfodol unrhyw "fwyd a gyflenwir yn uniongyrchol gan weithgynhyrchydd meintiau bach o gynhyrchion i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol".

Yn unol â'r eithriadau presennol ar labelu maeth (yn y rheoliadau wedi eu cymathu ar roi gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, Anecs V, 19), cynigiwn fod "gweithgynhyrchydd meintiau bach" yn golygu gweithgynhyrchwyr gyda llai na 10 o weithwyr a mantolen o lai na £1.4m. Cynigiwn fod "sefydliadau manwerthu lleol" yn golygu rhai a leolir o fewn sir y gweithgynhyrchydd cyflenwi a hefyd naill ai'r sir neu siroedd cyfagos, neu 30 milltir (50 cilometr) o ffin y sir y lleolir y gweithgynhyrchydd ynddi, pa un bynnag sydd fwyaf.

**Cwestiwn 77. I ba raddau y cytunwch y byddai'r eithriad hwn yn lliniaru'r baich ar fusnesau bach?**

[Cytuno'n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 78 a) Pa eithriadau eraill a allai liniaru effaith ein cynigion ar fusnesau bach a chanolig?**

[testun rhydd]

# Asesiad effaith

Rydym wedi creu Asesiad Effaith 'cam ymgynghori' i ystyried a, lle bo'n bosib, i gostio'r effeithiau (cost a manteision) ynghlwm â'r diwygiadau labelu arfaethedig. Cyhoeddwyd yr Asesiad Effaith ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon yn Atodiad C.

Mae ein dadansoddiad wedi'i ategu gan nifer o dybiaethau a mewnbynnau a thrafodir y rhain yn fwy manwl yn yr Asesiad Effaith atodol. Byddem yn croesawu eich tystiolaeth i gryfhau neu gywiro'r dadansoddiad hwn.

Gan ddilyn canllawiau'r RPC, rydym wedi rhannu ein dadansoddiad yn effeithiau uniongyrchol lle y mae effeithiau'r mesur yn glir a diwrthod, ac yn effeithiau anuniongyrchol lle y mae'r effeithiau y tu hwnt i oblygiadau clir y mesur.

## Cost a manteision uniongyrchol

Mae'r Asesiad Effaith atodol (Atodiad C) yn amcangyfrif y manteision (ffigurau positif) a'r costau uniongyrchol (ffigurau negyddol) a ganlyn. Amcan-gostau uniongyrchol yw'r gost i fusnesau'r DU dros gyfnod o 10 mlynedd:

- cost newid labeli (-£2.0m, cost untro) (cost i bob uwchfarchnad £179k)
- cost ymgyfarwyddo (-£8.9m, cost untro) (cost i bob busnes a effeithir £122)
- cost monitro a chydymffurfio (-£3.4m y flwyddyn) (cost flynyddol i bob fferm £109)
- costau olrhain (heb eu mesur)
- y manteision i ddefnyddwyr o gael gwybodaeth well (heb eu mesur)

**Byddem yn croesawu eich barn am yr amcan-gostau a thybiaethau a restrir isod ar gyfer y manteision a'r costau uniongyrchol a ganlyn:**

Ar sail ymatebion i alwad am dystiolaeth 2021, deallwn fod labeli'r rhan fwyaf o gynhyrchion bwyd yn cael eu hadnewyddu pob 1-3 blynedd. Ar gyfer yr amcan-gost ganolog, tybiwn y gallai 80% o'r newidiadau labelu ddigwydd fel rhan o'r adnewyddu arferol hwn.

**Cwestiwn 79. Ydych chi'n cytuno â'r amcangyfrifiad hwn? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb os gwelwch yn dda.**

[Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod]

[testun rhydd]

Defnyddiwn ddata o adroddiad Campden BRI 2010 i amcangyfrif y gost o newid labeli i bob 'uned cadw stoc' (SKU), gan dybio cost ganolog o £3,945 (prisiau 2022).

**Cwestiwn 80 a) Os gallwch roi'r gost ddiweddaraf o newid labeli ar gyfer pob SKU, a allwch wneud hynny isod os gwelwch yn dda.**

[blwch testun rhydd – rhifau'n unig]

**Cwestiwn 80 b) Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich barn.**

[blwch testun rhydd]

Tybiwn y byddai costau ymgyfarwyddo a chydymffurfio i bob ffermwr o ganlyniad i'r gofynion labelu arfaethedig hyn, p'un ai ydyn nhw'n dewis parhau gyda'u systemau cynhyrchu presennol neu symud at systemau cynhyrchu lles uwch.

**Cwestiwn 81 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch â'n tybiaeth y byddai'r gofynion labelu arfaethedig hyn yn achosi costau ymgyfarwyddo a chydymffurfio i <u>bob</u> cynhyrchydd?**

[Cytuno'n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 81 b) Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich barn.**

[blwch testun rhydd]

## Olrhain ac archwilio

Byddai ein cynigion yn rhoi cyfrifoldeb ar Weithredwyr Busnesau Bwyd i sicrhau bod eu labeli lles yn gywir. Er mwyn i label fod yn gywir, rhaid cael:

(a) system olrhain briodol yn ei lle i sicrhau bod tarddiad dywededig y cynnyrch yn gywir
(b) archwiliadau ar ffermydd i sicrhau bod y fferm yn cyflawni manyleb haen y label

Amcangyfrifwn y byddai'r costau olrhain ychwanegol o weithredu'r polisi hwn yn isel ar gyfer cynhyrchion anifail domestig oherwydd y gofynion olrhain sydd eisoes mewn grym yn y DU. Er enghraifft mae llawer o fanwerthwyr a chynlluniau gwarant yn mynnu ar olrhain y gadwyn gyflenwi'n llawn ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r Rhaglen Trawsnewid Gwybodaeth Da Byw i wella olrhain o'r fferm i'r fforc.

**Cwestiwn 82. Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth arall o gostau olrhain tebygol i fusnesau.** Dywedwch i ba sector neu grŵp y mae'r dystiolaeth yn berthnasol, gan roi enghreifftiau os gallwch.

[blwch testun rhydd]

Tybiwn y byddai archwilio label lles gorfodol naill ai'n integreiddio â systemau monitro a gorfodi sydd eisoes yn digwydd, neu'n golygu mân gost ychwanegol.

**Cwestiwn 83. Rhowch unrhyw ddata lefel-cwmni ar y gost o wneud archwiliad (er enghraifft, y gost i'ch busnes o wneud archwiliad cynllun gwarant fferm).**

[blwch testun rhydd]

## Manteision a chostau anuniongyrchol

Mae'r Asesiad Effaith 'cam ymgynghori' atodol (Atodiad C) yn amcangyfrif y manteision (ffigurau positif) a'r costau (ffigurau negyddol ) **anuniongyrchol** a ganlyn pe bai labelu'n annog cynnydd yng nghyfran y cynhyrchion lles uwch a werthir. Amcan-gostau anuniongyrchol yw'r gost i fusnesau'r DU dros gyfnod o 10 mlynedd:

- manteision i gymdeithas o les anifeiliaid gwell (heb eu mesur)
- manteision i anifeiliaid o les gwell (heb eu mesur)
- manteision i ffermwyr sylfaenol y DU a allai werthu mwy (+£46.56m y flwyddyn ar sail symud yn rhannol at gynhyrchu lles uwch)
- gwariant cyfalaf i ffermwyr sy'n dewis symud at arferion cynhyrchu lles uwch (heb ei fesur)
- effeithiau amgylcheddol (a gostiwyd yn rhannol ar gyfer ieir cig i fod yn -£17.7m y flwyddyn mewn mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr y flwyddyn)

  - effeithiau positif (er enghraifft, gwella bioamrywiaeth) a allai wrthbwyso'r effeithiau negyddol hyn (heb eu mesur)

Tybiwn y byddai ffermwyr ond yn dewis buddsoddi mewn systemau lles uwch pe byddent yn disgwyl gweld mantais i'w busnes yn y tymor hir. Mae unrhyw gostau felly'n rhai anuniongyrchol y tybiwn y gallent gael eu gwrthbwyso gan fwy o elw i ffermwyr.

Oherwydd mai'r farchnad sy'n gyrru labelu, yn y tymor hir byddem yn disgwyl i elw busnesau bwyd aros yr un fath neu gynyddu. Yn ôl ein gwaith modelu, byddai'r elw yn y pen draw'n aros yr un fath.

Tybiwn fod manwerthwyr ar hyn o bryd yn cydbwyso costau a phrisiau drwy osod prisiau ar lefel categori cynnyrch neu fusnes, yn hytrach na lefel cynnyrch unigol. Byddai manwerthwyr yn parhau i 'fantoli eu sefyllfa ariannol' ar ôl cyflwyno diwygiadau labelu. Gallai'r elw i fanwerthwyr gael ei ailddosbarthu ar draws y 'teulu' o gynhyrchion o ganlyniad i newid polisi stocio'r manwerthwr a'r galw gan ddefnyddwyr.

**Cwestiwn 84 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch â'n tybiaeth bod manwerthwyr yn gosod prisiau ar lefel categori cynnyrch neu fusnes?**

[Cytuno'n gryf / Cytuno / Niwtral / Anghytuno / Anghytuno'n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 84 b) Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich barn.**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 85 a) I ba raddau y cytunwch neu anghytunwch â'n tybiaeth y byddai elw busnesau bwyd yn aros mwy neu lai'r un fath yn y tymor hir?**

[Cytuno / Anghytuno, credaf y byddai'r elw'n gostwng yn y tymor hir / Anghytuno, credaf y byddai'r elw'n cynyddu yn y tymor hir / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 85 b) Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich barn.**

[blwch testun rhydd]

**<u>Penderfyniadau busnes</u>**

**Cwestiwn 88 a) Sut ydych chi'n rhagweld y byddai nifer y cynhyrchion lles uwch (haen 1-3) heb eu prosesau ac wedi eu mân-brosesu ar silffoedd o fewn sgôp yn newid o ganlyniad i'r ymyriad hwn? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan fanwerthwyr.**

Ar gyfer cynhyrchion porc: [Cynyddu / Lleihau / Aros yr un fath / Ddim yn gwybod]

Ar gyfer cynhyrchion cyw iâr: [Cynyddu / Lleihau / Aros yr un fath / Ddim yn gwybod]

Ar gyfer cynhyrchion wyau: [Cynyddu / Lleihau / Aros yr un fath / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 86 b) Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich barn.**

[blwch testun rhydd]

Mae ein gwaith modelu'n tybio y gwerthir a defnyddir y rhan fwyaf o fwydydd cig a fewnforiwyd mewn bwydydd a brosesir (sector manwerthu a thu allan i'r cartref).

**Cwestiwn 87 a) Pa ganran o'r holl fewnforion cig moch a dofednod heb ei brosesu ac wedi'i fân-brosesu y credwch sy'n cael ei ddefnyddio mewn bwydydd a broseswyd (sector manwerthu a thu allan i'r cartref)?**

- € <25%
- € 25% i 50%
- € 50% i 75%
- € > 75%

**Cwestiwn 87 b) Rhowch unrhyw dystiolaeth y gallwch i gefnogi eich barn.**

[blwch testun rhydd]

Mae'r cynigion labelu dull cynhyrchu'n ymwneud â chynhyrchion domestig ac wedi eu mewnforio.

**Cwestiwn 88 a) Rhowch unrhyw fanylion am unrhyw effeithiau ychwanegol posib i fusnesau (domestig neu dramor) o gyflwyno'r cynigion ar gyfer cynhyrchion wedi eu mewnforio. Sut y meddyliwch fydd y gofynion labelu'n effeithio ar gost a / neu faint o gynhyrchion sy'n cael eu mewnforio?**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 88 b) Rhowch unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich ateb.**

[blwch testun rhydd]

**Cwestiwn 89. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am yr Asesiad Effaith, neu unrhyw dystiolaeth arall y dymunwch ei rhannu â ni?**

[blwch testun rhydd]

## Effeithiau ychwanegol

**Cwestiwn 90 a) A gytunwch y byddai'r cynigion yn debygol o effeithio ar neu'n gyfle i wella'r berthynas rhwng grwpiau yn y categorïau canlynol a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)?**

- oed
- ailbennu rhywedd
- bod wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu wladol

- crefydd neu gred
- rhyw
- tueddiad rhywiol

[Cytuno’n gryf / Cytuno / Na’n cytuno na’n anghytuno / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 90 b) A gytunwch y byddai’r cynigion yn debygol o effeithio ar neu’n gyfle i wella’r berthynas rhwng grwpiau yn y categorïau canlynol a warchodir o dan ddeddfwriaeth gydraddoldeb Gogledd Iwerddon?**

- pobl gyda gwahanol gred grefyddol, barn wleidyddol, grŵp hil, oed, statws priodasol neu dueddiad rhywiol
- dynion a merched yn gyffredinol
- pobl ag anabledd a phobl heb anabledd
- pobl gyda dibynyddion a phobl heb ddibynyddion.

[Cytuno’n gryf / Cytuno / Na’n cytuno na’n anghytuno / Anghytuno / Anghytuno’n gryf / Ddim yn gwybod]

**Cwestiwn 90 c) Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich barn.**

[blwch testun rhydd]

# Diwygiadau labelu ehangach

Rydym yn cydnabod y gallai’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad hwn fod eisiau sôn am feysydd eraill lle y gallai diwygiadau labelu wella tryloywder a chysondeb, rhoi gwybodaeth well i ddefnyddwyr ac fel bod ffermwyr yn cael eu gwobrwyo’n deg gan y farchnad am gynhyrchu bwyd o ansawdd a safon uchel.

**Cwestiwn 91.** Disgrifiwch unrhyw feysydd pellach y gallai diwygiadau labelu gael eu hystyried ar eu cyfer yn y dyfodol ac a allai roi’r manteision uchod. Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth sydd ar gael.

*[blwch testun rhydd]*

# Atodiad A - Geirfa

Isod rhoddir cyfres o ddiffiniadau a ddefnyddir drwy gydol yr ymgynghoriad. Defnyddiwyd diffiniadau cyfreithiol lle'r oedd yn bosib, gyda dolen i'r testun cyfreithiol perthnasol. Weithiau rydym wedi diffinio termau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn unig er mwyn gwella eglurder a lleihau unrhyw ddehongliadau gwahanol o'r cwestiynau gymaint â phosib. Nodir y diffiniadau hyn gyda seren '*'. Pe bai'r diwygiadau labelu'n cael eu cyflwyno, byddai angen diffinio'r termau hyn yn gyfreithiol.

- ***Rheoliadau lles sylfaenol y DU:** Y safonau lles anifeiliaid a ddisgrifir yn neddfwriaeth y DU sy'n cynnwys safonau ar gyfer lles anifeiliaid ar ffermydd ac mewn lladd-dai. Mae'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:
  - Deddf Lles Anifeiliaid Cymru a Lloegr 2006, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid yr Alban 2006 a Deddf Lles Anifeiliaid Gogledd Iwerddon (2011)
  - Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir ar gyfer Lloegr (2007), Cymru (2007), Yr Alban (2010) a Gogledd Iwerddon (2012)
  - Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) ar gyfer Lloegr (2007), Cymru (2007); Rheoliadau Triniaethau a Waherddir ar Anifeiliaid a Warchodir (Eithriadau) (Yr Alban) (2010); a Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Triniaethau a Ganiateir gan Bersonau Lleyg) (Gogledd Iwerddon) (2012)
  - Rheoliadau Lles Adeg Lladd ar gyfer Lloegr (2015), Yr Alban (2012), Cymru (2014) a Gogledd Iwerddon (2014).
- ***Lles uwch:** rhagori ar reoliadau lles sylfaenol y DU
- ***Cynhyrchion sylfaenol y DU:** naill ai wedi eu cynhyrchu gartref neu wedi eu mewnforio sy'n cwrdd â rheoliadau lles sylfaenol y DU
- ***Cynhyrchion lles uwch:** naill ai wedi eu cynhyrchu gartref neu wedi eu mewnforio sy'n rhagori ar reoliadau lles sylfaenol y DU
- ***Mewnforion lles is:** is-set o gynhyrchion a fewnforiwyd sydd ddim yn cwrdd â rheoliadau lles sylfaenol y DU
- **Bwyd:** unrhyw sylwedd neu gynnyrch p'un ai wedi'i brosesu, ei ran-brosesu neu heb ei brosesu y bwriedir neu y disgwylir yn rhesymol iddo gael ei fwyta gan bobl (diffiniad: Rheoliad Wedi'i Gymathu 178/2002 ar y diffiniad o 'fwyd' (bwyd))
- **Porc, cyw iâr ac wyau:** Cynhyrchion bwyd y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl ac yn tarddu o foch, ieir cig ac wyau o ieir dodwy.
- **Cynhyrchion heb eu prosesu:** bwydydd heb gael eu prosesu ac yn cynnwys cynhyrchion sydd wedi cael eu rhannu, ymwahanu, hollti, tafellu, tynnu oddi ar yr asgwrn, minsio, blingo, malu, torri, glanhau, trimio, tynnu'r plisg, melino, oeri, rhewi, dwfn-rewi neu feirioli: Rheoliad Hylendid Wedi'i Gymathu 852/2004)
- **Cynhyrchion a brosesir**: bwydydd a gynhyrchir o brosesu cynhyrchion heb eu prosesu. Gall y rhain gynnwys cynhwysion sydd eu hangen i weithgynhyrchu'r cynnyrch, neu i roi nodweddion penodol iddo (diffiniad: Rheoliad Hylendid Wedi'i Gymathu 852/2004)
- **Prosesu:** unrhyw broses sy'n newid y cynnyrch gwreiddiol yn sylweddol, gan gynnwys gwresogi, mygu, halltu, aeddfedu, sychu, marinadu, echdynnu, allwthio

neu gyfuniad o’r prosesau hyn (diffiniad: Rheoliad Hylendid Wedi'i Gymathu 852/2004)

- **Cynhyrchion o darddiad anifail (POAO):** unrhyw gynhyrchion yn tarddu o anifeiliaid neu gynhyrchion sydd â pherthynas agos ag anifeiliaid. Gan gynnwys: cig ffres, offal, helgig a dofednod, cynhyrchion cig, pysgod, cregyn pysgod a chynhyrchion pysgod, protein anifail wedi’i brosesu i’w fwyta gan bobl, bwyd anifeiliaid anwes wedi’i brosesu neu ddeunydd amrwd i gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, lard a seimiau, pilenni anifail, llaeth a chynhyrchion llaeth, wyau a chynhyrchion wyau, mêl, semen, embryos, tail, gwaed a chynhyrchion gwaed, esgyrn, cynhyrchion esgyrn a gelatin, crwyn anifeiliaid, gwrych anifail, gwlân, blew a lledr, gwair a gwellt, tlysau hela h.y. pennau a chrwyn anifeiliaid a phwpae pryfed (diffiniad: Anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid: rheoliadau masnach ryngwladol)
- **Cynhwysyn cynradd:** cynhwysyn neu gynhwysion bwyd sy’n fwy na 50% o’r bwyd hwnnw neu sydd fel arfer yn gysylltiedig â’r enw a roddir ar y bwyd gan y defnyddiwr ac y mae fel arfer angen nodi faint o’r cynhwysyn sydd yn y bwyd, e.e. cig oen mewn pastai’r bugail (diffiniad: Rheoliad Wedi'i Gymathu 1169/2011 ar roi Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr)
- ***Cynhwysyn eilaidd:** unrhyw gynhwysyn neu gynhwysion bwyd sydd ddim yn gynhwysion cynradd ac nad oes angen nodi faint o’r cynhwysyn sydd yn y bwyd, er enghraifft, wy mewn cacen
- **Cydbwysedd más:** Dull cadwyn gyflenwi sy’n osgoi gorfod gwahanu’r cynhwysion. Mae’n golygu bod y gyfran o gynhyrchion a labelir i fod yn cynnwys cynhwysyn ardystiedig yn cyfateb i faint o’r cynhwysion ardystiedig a brynwyd.
- **Bwydydd a rag-becynnir:** unrhyw eitem unigol i’w chyflwyno i’r defnyddiwr terfynol ac i arlwywyr torfol, yn cynnwys bwyd a’r pecynnu y cafodd ei roi ynddo cyn ei gynnig i’w werthu, p’un ai yw’r pecynnu’n amgáu’r bwyd yn llwyr neu ond yn rhannol, ond sut bynnag fel na ellir newid y cynnwys heb agor neu newid y pecynnu (diffiniad: Rheoliad Wedi'i Gymathu 1169/2011 ar roi Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr)
- **Bwyd rhydd:** Bwyd a werthir yn rhydd. Gall hyn gynnwys cig o gownter deli, bara heb ei becynnu, llysiau marchnad a fferins ‘pick ‘n mix’ (diffiniad: Labelu bwyd: bwydydd rhydd - GOV.UK (www.gov.uk))
- **Bwyd a rag-becynnir i’w werthu’n uniongyrchol:** bwyd a becynnir yn yr un lle ag y mae’n cael ei gynnig neu werthu i ddefnyddwyr ac sydd yn y deunydd pecynnu cyn ei archebu neu ddewis – e.e. brechdan hunan-frand mewn caffi (diffiniad yn ôl canllawiau’r Asiantaeth Safonau Bwyd: Cyflwyniad i labelu alergeddau ar gyfer bwyd PPDS))
- **Busnes arlwyo torfol:** unrhyw sefydliad (gan gynnwys cerbyd neu stondin sefydlog neu symudol) fel bwytai, ffreuturau, ysgolion, ysbytai a busnesau arlwyo lle y mae bwyd, fel rhan o redeg y busnes, yn cael ei baratoi yn barod i’w fwyta gan y defnyddiwr terfynol (diffiniad: Rheoliad Wedi'i Gymathu 1169/2011 ar roi Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr)

- **Gweithredwr busnes bwyd:** y personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith fwyd yn cael eu cwrdd gan y busnes bwyd sy'n cael ei redeg ganddynt (diffiniad: Rheoliad Cyfraith Fwyd Wedi'i Gymathu 178/2002)
- **Busnes bwyd:** unrhyw fusnes, p'un ai yw'n gwneud elw neu beidio a ph'un ai'n gyhoeddus neu breifat, sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau'n ymwneud ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd (diffiniad**:** Rheoliad Wedi'i Gymathu 178/2002**)**
- **Gwybodaeth fwyd:** gwybodaeth am fwyd sydd ar gael i'r defnyddiwr terfynol drwy label, deunydd arall ynghlwm â'r bwyd neu drwy unrhyw ddull arall gan gynnwys dulliau technoleg fodern neu gyfathrebu llafar (diffiniad**:** Rheoliad Wedi'i Gymathu 1169/2011 ar roi Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr**)**
- **Labelu:** Unrhyw eiriau, manylion, nod masnach, enw brand, deunydd darluniol neu symbol yn ymwneud â bwyd ac a roddir ar unrhyw becynnu, dogfen, hysbysiad, label, modrwy neu goler yn dod gyda neu'n cyfeirio at fwyd o'r fath (diffiniad: Rheoliad Wedi'i Gymathu 1169/2011 ar roi Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr)
- **Safonau marchnata:** y gyfres o ofynion a ddiffinnir yn gyfreithiol ar gyfer cynhyrchu, hyrwyddo a gwerthu cynhyrchion penodol, gan gynnwys wyau a bîff (ymhlith cynhyrchion eraill) - (wele Ddeddf Amaeth 2020, Deddf Amaeth (Cyfraith a Data) (Yr Alban) 2020 013)
- ***Termau marchnata:** geiriau neu frawddegau a ddefnyddir i hyrwyddo cynnyrch a heb eu diffinio'n gyfreithiol neu eu hardystio fel arall, e.e. wedi'i besgi ar laswellt
- **Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon (QNIG):** nwyddau sydd naill ai (a) yn bresennol neu wedi bod yn bresennol yng Ngogledd Iwerddon a heb gael eu goruchwylio, cyfyngu na'u rheoli o dan y drefn dollau mewn unrhyw ffordd heblaw drwy fynd â'r nwyddau allan o diriogaeth Gogledd Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd, neu (b) yn gynhyrchion a broseswyd yn GI, yn ôl diffiniad Rheoliadau ar Ddiffinio Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon (Gadael yr UE) 2020
-

# Atodiad B – Safonau cynhyrchu drafft

Mae'r tablau isod yn disgrifio safonau drafft yn nodi'r gofynion posib y byddai angen eu cwrdd ar gyfer pob haen.

## Moch

| Metrig | Haen isaf | → | → | → | Haen uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| Dwysedd stocio | Heb ei nodi | Rhaid i'r lle llawr di-rwystr sydd ar gael i bob porchell wedi'i 'ddyfnu neu fochyn magu sy'n cael eu magu mewn grŵp fod o leiaf -<br><br>(a) 0.15 m² i bob mochyn os yw pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn 10kg neu lai;<br><br>(b) 0.20 m² i bob mochyn os yw pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy | Y lle llawr lleiaf ar gyfer **moch sy'n tyfu** mewn systemau dan do / systemau tu allan – Pwysau byw (kg) Cyfanswm lle llawr ($m^2$)<br>10 = 0.15/0.5<br>20 = 0.225/0.5<br>30 = 0.3/0.5<br>40 = 0.4/0.73<br>50 = 0.47/1.3<br>60 = 0.55/1.5<br>70 = 0.61/1.5<br>80 = 0.675/1.67 | Y lle llawr lleiaf ar gyfer **moch sy'n tyfu** mewn systemau dan do / systemau tu allan – Pwysau byw (kg) Cyfanswm lle llawr (m2)<br>10 = 0.15/0.5<br>20 = 0.225/0.5<br>30 = 0.3/0.5<br>40 = 0.4/0.73<br>50 = 0.47/1.3<br>60 = 0.55/1.5<br>70 = 0.61/1.5<br>80 = 0.675/1.67<br>90 = 0.715/1.67 | Llochesi awyr agored - dosbarth y mochyn / ardal orwedd leiaf ($m^2$)<br>Moch magu a Hychod yn magu perchyll hyd at 28 diwrnod = 4.0<br>Hychod sychion = 1.5<br>Moch pesgi<br>Hyd at 30kg (a dros 40 diwrnod) = 0.30<br>Hyd at 50kg = 0.40<br>Hyd at 85kg = 0.65<br>Hyd at 110kg = 0.80 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | na 10kg ond llai neu hafal i 20kg;<br><br>(c) 0.30 $m^2$ i bob mochyn os yw pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 20kg ond llai neu hafal i 30kg;<br><br>(3) 0.40 $m^2$ i bob mochyn os yw pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 30kg ond llai neu hafal i 50kg;<br><br>(e) 0.55 $m^2$ i bob mochyn os yw pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 50kg ond llai neu hafal i 85kg;<br><br>(f) 0.65 $m^2$ i bob mochyn os yw pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 85kg ond llai neu hafal i 110kg; a<br><br>(g) 1.00$m^2$ i bob mochyn os yw pwysau cyfartalog | 90 = 0.715/1.67<br>100 = 0.75/1.72<br>110 = 0.8/1.72<br><br>Moch yn tyfu / pesgi mewn ierdydd gwellt – pwysau (kg) / lleiafswm llawr ($m^2$)<br>Perchyll a ‘ddyfnwyd hyd at 35 = 0.45<br>36-50 = 1.17<br>51-75 = 1.35<br>76-95 = 1.50<br>96-110 = 1.54<br><br>Rhaid rhoi o leiaf 3.5$m^2$ o lawr i bob hwch ar gyfer hychod aeddfed, a 2.5$m^2$ i bob sbinwch ar gyfer rhai a gafodd un neu ddau dorllwyth. | 100 = 0.75/1.72<br>110 = 0.8/1.72<br><br>Moch yn tyfu / pesgi mewn ierdydd gwellt – pwysau (kg) / lleiafswm llawr ($m^2$)<br>Perchyll a ‘ddyfnwyd hyd at 35 = 0.45<br>36-50 = 1.17<br>51-75 = 1.35<br>76-95 = 1.50<br>96-110 = 1.54<br><br>Rhaid rhoi o leiaf 3.5$m^2$ o lawr i bob hwch ar gyfer hychod aeddfed, a 2.5$m^2$ i bob sbinwch ar gyfer rhai a gafodd un neu ddau dorllwyth. | Dosbarth yr anifail / cyfanswm llawr gan gynnwys ardal ymarfer awyr agored ($m^2$)<br>Hychod gyda pherchyll hyd at 40 diwrnod = 10<br>o berchyll dros 40 diwrnod a hyd at 30 kg = 1.0<br>Moch pesgi<br>Hyd at 50 kg = 1.4<br>Hyd at 85 kg = 1.9<br>Hyd at 110 kg = 2.3<br>Moch magu<br>Hychod = 4.9 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | y moch yn y grŵp yn fwy na 110kg;<br><br>Rhaid i’r lle llawr di-rwystr sydd ar gael i bob ‘sbinwch ar ôl cael baedd ac i bob hwch pan gedwir y sbinychod a / neu’r hychod mewn grwpiau fod yn 1.64m² i’r naill a 2.25m² i’r llall. Os cedwir yr anifeiliaid hyn mewn grwpiau o chwech neu lai, rhaid cynyddu’r lle llawr di-rwystr o 10%. Os cedwir yr anifeiliaid hyn mewn grwpiau o 40 neu fwy, gellir lleihau’r lle llawr di-rwystr o 10%.<br><br>Rhaid adeiladu’r uned a ddefnyddir i gadw’r moch fel bod pob mochyn yn gallu -<br><br>- sefyll, gorwedd a gorffwys yn ddi-drafferth; | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | - cael lle glân, cyffyrddus wedi'i ddraenio'n foddhaol er mwyn gallu gorffwys;<br><br>- gweld moch eraill, heblaw -<br><br>(i) os yw'r mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol; neu<br><br>(ii) yn yr wythnos cyn y bydd yr hwch yn dod â'i pherchyll ac yn ystod y cyfnod hwn, pryd y gellir cadw hychod a sbinychod allan o olwg moch eraill;<br><br>- cadw ei dymheredd yn gyffyrddus;<br><br>- cael digon o le fel bo'r holl anifeiliaid yn gallu gorwedd ar yr un pryd.<br><br>Rhaid cadw hychod a sbinychod o ddaliadau o 11 neu fwy o hychod mewn grwpiau heblaw yn ystod y cyfnod rhwng 7 diwrnod cyn y diwrnod y | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | bydd hwch yn dod â pherchyll a'r dyddiad y bydd 'dyfnu'r perchyll yn gorffen.<br><br>Rhaid i fesuriadau unrhyw stâl neu gorlan a ddefnyddir i gadw moch unigol fod fel nad yw'r ardal fewnol yn llai na sgŵar hyd y mochyn, ac nid yw'r un ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn, gyda hyd y mochyn ym mhob achos yn cael ei fesur o flaen ei drwyn i fôn ei gynffon pan fo'n sefyll gyda'i gefn yn syth. Nid yw hyn yn berthnasol i hwch o saith diwrnod cyn y disgwylir iddi ddod â'i pherchyll tan y 'dyfnir ei pherchyll, nac i fochyn a gedwir mewn stâl:<br><br>(a) tra bo'n cael unrhyw archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth i bwrpas llawfeddygol; | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | (b) i bwrpas cael baedd, ffrwythloni artiffisial neu gasglu semen;<br><br>(c) tra bo’n cael ei fwydo ar unrhyw achlysur penodol;<br><br>(d) i bwrpas ei farcio, golchi neu bwyso;<br><br>(e) tra bo’r gorlan neu stâl yn cael ei glanhau; neu<br><br>(f) tra bo’n aros i gael ei lwytho er mwyn ei gludo,<br><br>ar yr amod na chedwir y mochyn felly am ddim hirach nag y bo angen ei gadw i’r pwrpas hwnnw. | | | |
| Cyfoethogi | Heb ei nodi | Angen mynediad parhaol at amgylchedd wedi’i gyfoethogi | Angen mynediad parhaol at ddeunyddiau amgylchedd wedi’i gyfoethogi digonol i ganiatáu ar gyfer | Angen mynediad parhaol at ddeunyddiau amgylchedd wedi’i gyfoethogi digonol i ganiatáu ar gyfer ac | Angen mynediad parhaol at ddeunyddiau amgylchedd wedi’i gyfoethogi digonol i ganiatáu ar gyfer ac |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ac annog dangos ymddygiad turio, carnio a chnoi. | annog dangos ymddygiad turio, carnio a chnoi.<br><br>>200g o ddeunydd bwytadwy, cnoadwy a bwytadwy i bob mochyn pob dydd o'r amser 'dyfnu ymlaen | annog dangos ymddygiad turio, carnio a chnoi.<br><br>>200g o ddeunydd bwytadwy, cnoadwy a bwytadwy i bob mochyn pob dydd o'r amser 'dyfnu ymlaen |
| Mynediad i'r awyr agored / maestir | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Rhaid i foch fod wedi treulio o leiaf cyfran o'u bywydau yn yr awyr agored, o gael eu geni tan eu 'dyfnu. | Rhaid i foch fod wedi treulio eu bywydau cyfan yn yr awyr agored. |
| Asesiad canlyniadau lles / rheoli (asesir ar wahân) | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Gofynnol | Gofynnol | Gofynnol |
| Adeiladau pesgi | Heb ei nodi | Caniateir lloriau cwbl slatiog | Ni chaniateir lloriau cwbl slatiog, rhaid i'r | Gofynion ar gyfer pesgi dan do: | Rhaid i bob mochyn gael mynediad at le gyda tho drosto |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ardal orwedd fod yn welyog | Ni chaniateir lloriau cwbl slatiog, rhaid i’r ardal orwedd fod yn welyog<br><br>Gofynion ar gyfer pesgi yn yr awyr agored:<br><br>Rhaid i bob mochyn gael mynediad at le gyda tho drosto sydd: a) yn cysgodi rhag y gwynt a’r glaw b) gyda digon o le i’r holl foch orwedd yn gyffyrddus ar yr un pryd | sydd: a) yn cysgodi rhag y gwynt a’r glaw b) gyda digon o le i’r holl foch orwedd yn gyffyrddus ar yr un pryd |
| System perchyll | Heb ei nodi | Caniateir cewyll perchyll | Caniateir cewyll dros dro (am 5 diwrnod neu lai) | Ni chaniateir cewyll o gwbl | Ni chaniateir cewyll o gwbl |
| Tocio cynffonnau (a thriniaethau eraill: torri dannedd, sbaddu, | Caniateir | Ni chaniateir tocio cynffonnau a thorri dannedd fel arfer<br><br>Caniateir sbaddu | Ni chaniateir sbaddu<br><br>Ni chaniateir anffurfiadau eraill fel arfer | Ni chaniateir | Ni chaniateir |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| modrwyo trwyn) | | Caniateir modrwyo trwynau moch sydd ddim yn cael eu cadw mewn system hwsmonaeth dan do’n barhaus | | | |

## Ieir dodwy

| Safon lles | Haen isaf | → | → | → | Haen uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| Dwysedd stocio | Heb ei nodi | 750 cm² o le cawell i bob iâr a 600 cm² o hwnnw i fod yn lle symud o gwmpas | 9 o ieir /m² o le symud o gwmpas<br><br>15 o ieir/m² o lawr<br><br>Ni chaniateir cewyll clwstwr | 9 o ieir /m² o le symud o gwmpas<br><br>15 o ieir/m² o lawr<br><br>2000 o ieir i’r hectar yn yr awyr agored | 6 o ieir /m² o le symud o gwmpas<br><br>6 o ieir/m² o lawr<br><br>1000 o ieir i’r hectar yn yr awyr agored |
| Cyfoethogi | Heb ei nodi | Gwellt ayyb er mwyn gallu crafu a phigo | 2 eitem gyfoethogi i bob mil o adar | 2 eitem gyfoethogi i bob mil o adar, gan gynnwys deunydd y gellir ei ‘dynnu’n gria’ fel gwellt neu fêls siafins | 2 eitem gyfoethogi i bob 500 o adar, gan gynnwys deunydd y gellir ei ‘dynnu’n gria’ fel gwellt neu fêls siafins |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad i'r awyr agored / maestir | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Gofynnol (heblaw pan fydd cyfyngiadau clefyd hysbysadwy yn eu lle) | Gofynnol (heblaw pan fydd cyfyngiadau clefyd hysbysadwy yn eu lle) |
| Asesiad canlyniadau lles / rheoli (asesir ar wahân) | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Gofynnol | Gofynnol | Gofynnol |
| Manyleb maestir | N/A | N/A | N/A | Darparu cysgod: 8m²/1000 o adar. O leiaf 4 lloches i bob hectar<br><br>Lloches gyda tho drosti / feranda o 2030 ymlaen. | Maestir wedi'i gyfoethogi:<br><br>Lloches / cysgod naturiol = 5% ardal awyr agored; <20m rhwng llochesi; peth cysgod o fewn 20m i ddrysau'r cytiau. Mynediad o 12 wythnos ymlaen.<br><br>Lloches gyda tho drosti / feranda. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tocio pigau | Caniateir | Caniateir i atal pigo plu neu ganibaliaeth. | Caniateir i atal pigo plu neu ganibaliaeth. | Caniateir ar hyn o bryd i atal pigo plu neu ganibaliaeth.<br><br>Ni chaniateir ar gyfer yr haen hon o 2030 ymlaen. | Ni chaniateir – mae amgylchedd gwell yn lleihau straen gan atal pigo plu. |

## Ieir cig

| **Safon lles** | **Haen isaf** | → | → | → | **Haen uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dwysedd stocio | Heb ei nodi | 39kg/$m^2$ | 30kg/$m^2$ | 27.5kg/$m^2$ | 21kg/$m^2$ (unedau sefydlog) neu 30kg/$m^2$ (unedau symudol) |
| Cyfoethogi | Heb ei nodi | Heb ei nodi | 2m o le clwyd neu 0.3$m^2$ o le llwyfan a 2 eitem bigo i bob mil o adar. | 1.5 o fêls gwellt, 2m o le clwyd neu 0.3$m^2$ o le llwyfan a 2 eitem bigo i bob mil o adar. | 1.5 o fêls gwellt, 2m o le clwyd neu 0.3$m^2$ o le llwyfan a 2 eitem bigo i bob 500 o adar. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad at awyr agored / maestir | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Gofynnol<br><br>Mae’r adar wedi cael mynediad, yn ystod hanner eu bywydau o leiaf, at rediadau awyr agored. | Gofynnol<br><br>Mae’r adar wedi cael mynediad, yn ystod hanner eu bywydau o leiaf, at rediadau awyr agored. |
| Asesiad canlyniadau lles / rheoli (asesir ar wahân) | Ddim yn ofynnol | Ddim yn ofynnol | Gofynnol | Gofynnol (heblaw pan fydd cyfyngiadau clefyd hysbysadwy yn eu lle). | Gofynnol (heblaw pan fydd cyfyngiadau clefyd hysbysadwy yn eu lle). |
| Manyleb y maestir | N/A | N/A | N/A | Wedi’i orchuddio’n bennaf â llystyfiant, o leiaf $1m^2$ i bob aderyn.<br><br>O leiaf $8m^2$ o loches i bob mil o adar, gyda pheth cysgod o fewn 20m i ddrysau eu cytiau.<br><br>Gorchudd naturiol ar $\geq$5% o’r ardal. | Wedi’i orchuddio’n bennaf â llystyfiant, o leiaf $1m^2$ i bob aderyn.<br><br>O leiaf $8m^2$ o loches i bob mil o adar, gyda pheth cysgod o fewn 20m i ddrysau eu cytiau.<br><br>Gorchudd naturiol ar $\geq$5% o’r ardal. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ≥2 o ardaloedd tyllau llwch ac o leiaf un i bob 2000 o adar.<br><br>Lloches gyda tho drosti / feranda o 2030 ymlaen. | >2 o ardaloedd tyllau llwch ac o leiaf un i bob 2000 o adar.<br><br>Lloches gyda tho drosti / feranda. |
| Golau | Heb ei nodi | ≥ 20 *lux* dros ≥ 80% o'r lle symud o gwmpas; 6 awr o dywyllwch y dydd gan gynnwys 4 awr yn ddi-dor. | ≥ 50 *lux* o olau, gan gynnwys golau naturiol. | Ffenestri'n cyfateb i 3% o'r llawr, gwyllio graddol. | Cyfnod parhaus o dywyllwch ≥ 8 awr. |
| Teneuo | Caniateir | Caniateir | Un teneuo ar y mwyaf | Ni chaniateir | Ni chaniateir |
| Cyfradd dwf y brîd | Heb ei nodi | Heb ei nodi | Tyfu'n araf / twf canolig<br><br>Y bridiau derbyniol yw: – Hubbard Redbro, JA757, 787, 957, neu 987. – | Tyfu'n araf / twf canolig<br><br>Oed lleiaf yn cael eu lladd – 56 diwrnod | Tyfu'n araf / twf canolig<br><br>Oed lleiaf yn cael eu lladd – 81 diwrnod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rambler Ranger, Ranger Classic a Ranger Gold.<br><br>Ynghyd â bridiau eraill sy’n pasio protocol asesiad lles trylwyr sy’n gymeradwy gan y Llywodraeth ac yn cynnwys asesu mesurau canlyniadau lles allweddol, gan gynnwys cyfradd dwf, iechyd coesau a marwoldeb | | |